# Dilyniant mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

## Pecyn Prosiect Ymarferol B



# Cynnwys

**1. Cyflwyniad i aseswyr** 2

**2. Canllawiau'r prosiect, tasgau a graddau** 3

**Canllawiau i ddysgwyr** 3

**Canllawiau i aseswyr** 6

**Marcio a graddio** 8

**3. Briffiau prosiectau crefft** 9

**3.1 Briff asesiad plymio a gwresogi** 10

Manyleb Tasg 1: Sinc golchi dwylo a thoiled 13
Manyleb Tasg 2: Tanc dŵr poeth 17
Manyleb Tasg 3: Gwres canolog 22
Gridiau marcio 26
Marc cyffredinol y Prosiect Ymarferol 46

**3.2 Briff asesu trydanol** 48

Manyleb Tasg 1: Gosod estyniad i'r annedd 50
Manyleb Tasg 2: Swyddfa yn yr ardd 54
Manyleb Tasg 3: Gweithdy yn yr ardd 58
Gridiau marcio 62
Marc cyffredinol y Prosiect Ymarferol 80

**Gwybodaeth am y Fersiwn**

| Fersiwn a dyddiad cyhoeddi | Newidiadau |
|---|---|
| f1 Hydref 2024 | Y ddogfen wreiddiol |

# 1. Cyflwyniad i aseswyr

Mae’r pecyn hwn yn cynnwys briff y prosiect a thasgau ymarferol ar gyfer cefnogi tasgau Cynllunio ac adran Gyflawni’r prosiect.

Rhaid i aseswyr roi’r briffiau prosiect perthnasol i ymgeiswyr a’r tasgau cynllunio ar gyfer y maes crefft y mae’r dysgwr wedi’i ddewis ar ddechrau asesiad y prosiect.

Rhaid i’r dysgwyr ddilyn yr holl reolau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol bob amser.

## 2. Canllawiau'r prosiect, tasgau a graddio

Mae'r canllawiau a'r tasgau Cynllunio a Gwerthuso canlynol yn berthnasol i bob crefft yn y cymhwyster hwn. Rhaid cysylltu'r rhain â'r briff crefft perthnasol i strwythuro a chefnogi asesiadau.

## Canllawiau i ddysgwyr

Mae tair elfen i'r prosiect hwn: cynllunio, cyflawni a gwerthuso.

Mae gennych:

- **14 awr** wedi'u neilltuo i gynllunio'r tair tasg (cynllunio)
- **40 awr** wedi'u neilltuo i gyflawni'r tair tasg (cyflawni)
- **6 awr** i werthuso'r tair tasg yn y prosiect (gwerthuso).

Chewch chi ddim defnyddio'r amser a roddwyd i chi ar gyfer pob elfen ar gyfer elfen arall, hy os byddwch yn cwblhau eich gwaith cynllunio mewn 12 awr, chewch chi ddim defnyddio'r ddwy awr arall ar gyfer yr elfennau cyflawni na gwerthuso.

Bydd gofyn i chi lunio cynlluniau ar gyfer pob un o'r 3 tasg gan ddangos y dull y byddwch yn ei ddefnyddio i ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol yn y tasgau, wedi'i ategu gan amserlen waith gyffredinol.

Ar ôl cwblhau'r dasg, bydd gofyn i chi werthuso eich gwaith.

Rhaid i chi ddilyn yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol bob amser.

### Tasg gynllunio

Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ystafell ddosbarth lle byddwch yn gallu cael gafael ar offer TG ac adnoddau priodol i wneud eich gwaith ymchwil. Gallai'r adnoddau hyn gynnwys nodiadau cyfarwyddyd, rheoliadau a chyfarwyddiadau / llenyddiaeth y gwneuthurwr.

Gofynnir i chi greu'r pethau canlynol:

- rhestr adnoddau sy'n cynnwys yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau pob tasg (cyfeiriwch at fanylebau'r dasg a ddarparwyd)
- asesiad risg
- datganiad dull sy'n cynnwys amserlen waith (gydag amserlenni) – rhaid i'ch cynllun nodi faint o amser rydych chi'n amcangyfrif y byddwch chi'n ei gymryd ar gyfer pob tasg, gan nodi'r prif weithgareddau/camau gwaith ym mhob tasg a faint o amser rydych chi'n disgwyl i'r rhain ei gymryd, unrhyw ddibyniaethau posibl rhwng gweithgareddau/cyfnodau gwaith, unrhyw gerrig milltir rydych chi'n dymuno eu cyflawni – er enghraifft prif weithgareddau'r tasgau
- lluniadau/diagramau (os nodir hynny ym manyleb y dasg)
- amcangyfrif cwsmeriaid ar gyfer pob tasg (gweler yr wybodaeth isod am gostau prosiect)
- set o feini prawf llwyddiant rydych chi wedi'u gosod i chi'ch hun ar gyfer y tasgau cyflawni. Gall eich meini prawf llwyddiant fod yn berthnasol i beth bynnag rydych chi'n meddwl sy'n briodol ar gyfer y gwaith, er enghraifft ansawdd y gwaith gosod/gorffen, ffyrdd o weithio (ee mesur a marcio, drilio, gosod, plygu, saernïo,

clipio, ac ati). Meddyliwch pam eich bod wedi gosod y meini prawf llwyddiant a sut y bydd y rhain yn cefnogi allbwn o safon.

Meddyliwch am y canlynol:

**'Beth mae gwath adeiladu/ gwaith gosod da yn ei olygu yn fy maes crefft i?**
**Sut gallaf gyflawni hyn?**

Bydd eich darparwr dysgu'n rhoi ffurflenni i ategu eich ymatebion i'r dasg hon.

Rhaid i chi gynnwys yr wybodaeth hon uchod yn eich cynlluniau.

## Tasg costau prosiect

Ar gyfer yr elfen hon, mae'n ofynnol i chi lunio amcangyfrif ar gyfer cwsmer ar gyfer **pob un o'r tasgau yn y briff crefft a ddarperir gan eich aseswr.**

Rydych yn hunangyflogedig ac yn gweithio ar eich pen eich hun; mae eich gorbenion yn cynnwys yswiriant, costau rhedeg faniau, a chostau gweinyddol sy'n dod i gyfanswm o £6.25 yr awr waith, eich cyfradd fesul awr yw £25 yr awr, ac mae'ch busnes yn gweithredu ar 25% o elw.

Defnyddiwch y rhestr adnoddau a'r llinellau amser o'r amserlen waith rydych chi wedi'i chynhyrchu i lunio dyfynbris ar gyfer cwsmer.

Rhaid i'r dyfynbris hwn gynnwys:

- trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud
- y pris cyffredinol i'r cwsmer am y dasg – gan gynnwys sut y penderfynwyd arno (dangoswch eich gwaith os gwelwch yn dda)
- hyd y dasg
- rhestr adnoddau gyda chostau

Byddwch yn cwblhau cynlluniau ar gyfer pob un o'r 3 tasg yn y Prosiect Ymarferol, rhaid i bob un o'r 3 fodloni'r marc llwyddo trothwy ar gyfer yr elfen gynllunio cyn symud ymlaen i'r elfen gyflawni yn y Prosiect Ymarferol.

Mae angen dau gopi o bob cynllun; rhaid cyflwyno un i'ch asesydd a chadw un copi i'w ddefnyddio yn elfen gyflawni'r prosiect.

# Tasg gyflawni

Mae'r gofynion ar gyfer elfen gyflawni pob Prosiect Ymarferol ar gael yn adran 3 y ddogfen hon, sy'n cynnwys brîff prosiect ar gyfer pob crefft.

## Gwerthuso

Ar ôl cwblhau'r elfen gyflawni, mae'n ofynnol i chi ysgrifennu **un** adroddiad gwerthuso sy'n adlewyrchu'r **holl dasgau** a wnaed fel rhan o'r prosiect. Yn yr adroddiad hwn, rhaid i chi werthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r tasgau ac ansawdd y deilliannau, gan gymharu deilliannau'r prosiect â gofynion y dasg a'ch cynllun, gan gynnwys y meini prawf llwyddiant rydych wedi'u gosod yn flaenorol.

Byddwch yn cynnal y gwerthusiad hwn mewn ystafell ddosbarth.

Wrth gwblhau eich gwerthusiad o'r prosiect byddwch yn gallu cael gafael ar eich dogfennau cynllunio i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

**Rhaid i'ch gwerthusiad ateb y canlynol:**

- Wnaethoch chi fodloni gofynion eich cynllun?
- Wnaethoch chi fodloni eich meini prawf llwyddiant?
- Wnaethoch chi fodloni'r gofynion ar gyfer pob tasg?

Ystyriwch hefyd fel sy'n berthnasol:

- Beth aeth yn dda? Beth yw eich cryfderau?
- Beth nad oedd cystal? Oedd gennych chi unrhyw feysydd i'w gwella?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol petaech yn cynnal y dasg/tasgau eto? Fyddech chi'n defnyddio dull gwahanol y tro nesaf?
- Pa mor dda wnaethoch chi gynllunio? Ddylech chi fod wedi gwneud mwy?
- Pa broblemau gawsoch chi? Sut wnaethoch chi oresgyn hynny?
- Aeth y tasgau ymarferol yn ôl y bwriad? (ee adnoddau, amser)
- Os gwnaethoch chi gynnal profion/comisiynu, beth oedd ystyr eich canlyniadau?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r prosiect?

## Cyflwyno gwaith

Mae angen ymatebion ysgrifenedig ar gyfer y tasgau yn adran cynllunio a gwerthuso'r prosiect.
Rhaid darparu'r ymatebion ysgrifenedig fel ymatebion electronig wedi'u teipio. Rhaid i chi sicrhau
bod eich gwaith yn daclus, hy defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (er enghraifft Times New
Roman, neu ffont gyfatebol, maint 12), defnyddiwch fylchiad dwbl a chynnwys ymylon digonol.

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod pob darn o waith wedi'i labelu'n glir â'ch enw, rhif y ganolfan, rhif y dysgwr a chyfeirnod yr aseiniad.
Rhaid cadw pob ffeil electronig yn y fformat canlynol: CYFENW_ENW CYNTAF_ENW'R ASESIAD_DYDDIAD_RHIF Y FERSIWN

# Canllawiau i'r asesydd

## Tasg gynllunio

Bydd angen i'r dysgwr lunio cynllun ar gyfer pob un o'r tasgau ym mriff prosiect y grefft o'i ddewis.

Dylai dysgwyr gwblhau eu cynllunio yn yr ystafell ddosbarth, wedi'i fonitro gan staff y ganolfan sydd wedi cael hyfforddiant goruchwylio arholiadau. Bydd rhaid i ddysgwyr ddefnyddio cyfleusterau TG gyda mynediad i'r we, gwybodaeth gan y gwneuthurwr, catalogau cyfanwerthwyr, nodiadau cyfarwyddyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac unrhyw ddeunydd arall a fyddai ar gael iddynt pe bai'r prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn y gweithle.

Nid oes ffurflenni cofnodi penodol wedi cael eu darparu ar gyfer dogfennau ysgrifenedig fel asesiadau risg neu ddatganiadau dull. Rhaid i ganolfannau roi ffurflenni i ddysgwyr ar gyfer elfen gynllunio'r prosiect.

Unwaith y bydd y dysgwr wedi cwblhau'r dasg gynllunio, rhaid cyflwyno copi o'u cynllun i'r asesydd at ddibenion asesu a dylai'r dysgwr gadw copi arall i'w ddefnyddio ar gyfer elfen gyflawni'r prosiect. Yn unol â'r canllawiau a roddir i ddysgwyr, rhaid ei ddarparu fel copi electronig.

I gynorthwyo asesu parhaus, rhaid i'r asesydd farcio'r elfen gynllunio a **chadarnhau bod y trothwy gofynnol i lwyddo wedi'i gyflawni ar gyfer y tri chynllun tasg cyn y gall y dysgwr symud ymlaen at elfen gyflawni'r Prosiect Ymarferol.** Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr ond yn symud ymlaen ar ôl iddynt adnabod y gofynion iechyd a diogelwch, a'r deunyddiau a chyfarpar angenrheidiol, i gwblhau'r tasgau.

**Dim ond y marc ar gyfer y cynllun â'r sgôr uchaf fydd yn cyfrannu at farc cyffredinol y prosiect.**

Rhaid i benderfyniadau asesu a chadarnhau'r camau nesaf gael eu cyfathrebu i'r dysgwr o fewn wythnos i gwblhau'r elfen gynllunio.

Er mwyn gwneud y tasgau ymarferol yn haws eu trin, mae rhestr offer a deunyddiau ar gael fel rhan o friff y prosiect ar gyfer pob crefft. **Cofiwch mai at ddefnydd y ganolfan yn unig yw'r rhestri hyn ac na ddylid eu rhoi i ddysgwyr** - dylen nhw ddefnyddio eu rhestr eu hunain o ddeunyddiau a chyfarpar o'r dasg gynllunio.

Bydd gofyn i ddysgwyr greu'r pethau canlynol:

- rhestr adnoddau sy'n cynnwys yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau pob tasg (cyfeiriwch at fanylebau'r dasg a ddarparwyd) **(cyfeirnod grid marcio a)**
- asesiad risg **(cyfeirnod grid marcio b)**
- datganiad dull sy'n cynnwys amserlen waith (gydag amserlenni) gan nodi'r prif weithgareddau/camau gwaith ym mhob tasg a faint o amser rydych chi'n disgwyl i'r rhain ei gymryd, unrhyw ddibyniaethau posibl rhwng gweithgareddau/cyfnodau

gwaith, unrhyw gerrig milltir rydych chi'n dymuno eu cyflawni – er enghraifft prif weithgareddau'r tasgau **(cyfeirnod grid marcio b & d)**

- lluniadau/diagramau (os nodir hynny ym manyleb y dasg) **(cyfeirnod grid marcio b)**
- amcangyfrif cwsmeriaid ar gyfer pob tasg (gweler yr wybodaeth isod am gostau prosiect) **(cyfeirnod grid marcio c)**
- meini prawf llwyddiant ar gyfer pob tasg. Gall hyn fod yn berthnasol i beth bynnag maen nhw'n meddwl sy'n briodol ar gyfer y tasgau, er enghraifft ansawdd y gwaith gosod, ffyrdd o weithio (ee mesur a marcio, drilio, gosod, plygu, saernïo, clipio, ac ati). Dylai dysgwyr allu cyfiawnhau pam eu bod wedi gosod y meini prawf llwyddiant sydd ganddynt a sut maent yn cefnogi allbynnau/deilliannau o ansawdd. **(cyfeirnod grid marcio e).**

## Tasg cost y prosiect

Mae'r elfen hon o'r asesiad yn gofyn i'r dysgwr ddatblygu amcangyfrif ar gyfer y cwsmer **ar gyfer pob un o dasgau'r briff crefft yn y grefft o'i ddewis.** Rhaid darparu brîff y prosiect ar gyfer y grefft o'i ddewis i'r dysgwr cyn iddo ddechrau'r asesiad hwn. Mae briffiau prosiect ar gael ym Mhecyn y Prosiect.

Bydd y dysgwr yn cwblhau'r dasg ganlynol:
Rydych yn hunangyflogedig ac yn gweithio ar eich pen eich hun; mae eich gorbenion yn cynnwys yswiriant, costau rhedeg faniau, a chostau gweinyddol sy'n dod i gyfanswm o £6.25 yr awr waith, eich cyfradd fesul awr yw £25 yr awr, ac mae'ch busnes yn gweithredu ar 25% o elw.

Defnyddiwch y rhestr adnoddau a'r llinellau amser o'r amserlen waith rydych chi wedi'i chynhyrchu ar gyfer un o'r tasgau i lunio amcangyfrif ar gyfer cwsmer ar gyfer y dasg o'ch dewis.

Rhaid i'r dyfynbris hwn gynnwys:

- trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud
- pris cyffredinol i'r cwsmer am y dasg – gan gynnwys sut y penderfynwyd arno (dangoswch eich gwaith os gwelwch yn dda)
- hyd y dasg
- rhestr adnoddau gyda chostau

Mae ganddynt **14 awr** i gwblhau'r elfen gynllunio. Os ydynt yn cwblhau mewn llai o amser, ni allant ddefnyddio'r amser ychwanegol yn elfennau eraill y prosiect hwn na chymryd amser oddi wrth elfennau eraill i ychwanegu amser yma.

## Tasg gyflawni

Mae'r gofynion ar gyfer elfen gyflawni pob Prosiect Ymarferol ar gael yn adran 3 y ddogfen hon, sy'n cynnwys brîff prosiect ar gyfer pob crefft.

Mae ganddynt **40 awr** i gwblhau'r elfen berfformio. Os ydynt yn cwblhau mewn llai o amser, ni allant ddefnyddio'r amser ychwanegol yn elfennau eraill y prosiect hwn na chymryd amser oddi wrth elfennau eraill i ychwanegu amser yma.

## Gwerthusiad

Ar ôl i'r dysgwyr gwblhau elfen perfformio'r prosiect, mae'n rhaid iddyn nhw lunio **un** adroddiad gwerthuso sy'n pwyso a mesur y prosiect cyfan ac sy'n cynnwys yr holl dasgau. Yn yr adroddiad hwn, rhaid i'r dysgwyr werthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r tasgau ac ansawdd y deilliannau, gan gymharu canlyniadau/deilliannau eu prosiect â gofynion y dasg a'u cynllun, gan gynnwys y meini prawf llwyddiant a osodwyd.

Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ystafell ddosbarth dan oruchwyliaeth staff y ganolfan, gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu gweld eu dogfennau cynllunio i gefnogi eu gweithgareddau adolygu a gwerthuso.

Mae ganddynt **6 awr** i gwblhau'r elfen gynllunio.

# Marcio a graddio

## Defnyddio'r grid graddio

Ar gyfer **elfen gynllunio'r** prosiect, rhaid i aseswyr ddefnyddio'r grid marcio cynllunio ym mhob briff crefft i roi marc rhwng 1 a 3 ar gyfer elfennau a - e, yn seiliedig ar lefel perfformiad y dysgwr. Os nad yw'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio ar gyfer elfen benodol, rhaid rhoi sgôr o 0. Bydd dysgwyr yn cynllunio'r elfen ymarferol ar gyfer **y 3 tasg**, yn unol â meini prawf marcio a - e. Fodd bynnag, er y bydd angen i'r asesydd farcio pob cynllun tasg, **dim ond y marciau o'r cynllun tasg â'r sgôr uchaf fydd yn cyfrannu at y marc asesu terfynol.**

Ar gyfer yr **elfen ymarferol ('cyflawni')**, rhaid i aseswyr ddefnyddio briff y prosiect a'r grid marcio ar gyfer y grefft berthnasol i bennu'r radd dros dro a gyflawnwyd. Mae'r rhain ar gael yn yr adran Briffiau Prosiectau Masnach isod.

Ar gyfer yr elfen werthuso, rhaid i aseswyr ddefnyddio adran werthuso'r grid marcio isod i roi marc rhwng 1 a 3 ar gyfer elfennau a - e, yn seiliedig ar lefel y perfformiad a ddangoswyd gan y dysgwr. Os nad yw'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio ar gyfer elfen benodol, rhaid rhoi sgôr o 0.

**Sylwch** fod ffactorau graddio yn berthnasol i elfennau cynllunio a gwerthuso'r asesiad hwn. Mae'r rhain yn lluosi'r sgôr a gafwyd â'r rhif a nodir yn y grid marcio isod. Rhaid defnyddio'r rhain unwaith y bydd marciau wedi'u dyfarnu ar gyfer pob maen prawf yn yr elfennau perthnasol.

# 3. Briffiau prosiectau crefft

3.1 Plymio a gwresogi

3.2 Trydanol

# 3.1 Briff asesiad plymio a gwresogi

Mae gwaith amrywiol yn cael ei wneud ar eiddo cwsmer. Mae hyn yn cynnwys estyniad un llawr yng nghefn annedd dau lawr preswyl sengl, a newid dau adeilad gardd sy'n bodoli eisoes yn swyddfa yn yr ardd a gweithdy.

Mae eich cwmni wedi cael contract i osod ystafell gotiau lawr grisiau yn yr estyniad, yn cynnwys toiled a sinc golchi dwylo, tanc dŵr poeth newydd mewn cwpwrdd wrth ymyl, a symud y boeler a gosod gwresogydd newydd yn yr ystafell gotiau newydd.

Mae tair elfen i'r prosiect hwn: cynllunio, perfformio a gwerthuso.

Mae gennych:

- **14 awr** wedi'u neilltuo i gynllunio'r tair tasg (cynllunio)
- **40 awr** wedi'u neilltuo i gyflawni'r tair tasg (cyflawni)
- **6 awr** i werthuso'r tair tasg yn y prosiect (gwerthuso).


Chewch chi ddim defnyddio'r amser a roddwyd i chi ar gyfer pob elfen ar gyfer elfen arall, hy os byddwch yn cwblhau eich gwaith cynllunio mewn 12 awr, chewch chi ddim defnyddio'r ddwy awr arall ar gyfer yr elfennau cyflawni na gwerthuso.

Bydd gofyn i chi lunio cynllun yn dangos y dull y byddwch yn ei ddefnyddio i ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol yn y tasgau cyflawni, wedi'i ategu gan amserlen waith gyffredinol.

Ar ôl cwblhau'r dasg osod, bydd gofyn i chi werthuso eich gwaith.

Rhaid i chi ddilyn yr holl reolau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol bob amser.


## Cynllun cyffredinol y prosiect




# Gwybodaeth am fanylion y prosiect

**Nodyn pwysig:**

**Nid yw'r diagram i raddfa**
**Dylid lleoli clipiau pibellau yn ôl yr angen**



# Manyleb Tasg 1: Sinc golchi dwylo a thoiled



## Canllawiau ar dasg 1 i'r asesydd

**Gwybodaeth i'r ganolfan**

Rhaid gwneud hyn ar osodiad 'byw' ar gyfer system dŵr poeth, dŵr oer a glanweithdra, i'w osod ar arwyneb addas yn y pen draw.

Dylai canolfannau ddarparu ardal gweithdy sy'n cynrychioli ystafell gotiau ddomestig yn realistig, gyda phibell pwt (stub stack) yn y gornel dde gefn a chwpwrdd tanc.

Canolfannau i ddarparu celfi ystafell gotiau (yn cynnwys sinc golchi dwylo a thoiled)

Canolfannau i ddarparu deunyddiau a ffitiadau i gwblhau'r asesiad (y dysgwr fydd yn pennu pa ddeunyddiau a ffitiadau i'w defnyddio fel rhan o'r asesiad).

Gofynion gosod

- Cyfeiriwch at gynllun Tasg 1 am wybodaeth
- Canolfannau i bennu ffurfweddiad pibellau ar sail y dimensiynau a ddarperir yng nghynllun Tasg 1

Glanweithdra

- Darparu ar gyfer cysylltu â draen

Comisiynu a phrofi system glanweithdra.

Os nad yw'n bosib profi'r gosodiad bae wedi'i gwblhau, dylai canolfannau gynhyrchu eu llwyfan profi eu hunain yn cynnwys cysylltiadau gwastraff ar gyfer y toiled a'r sinc golchi dwylo. Rhaid cadarnhau ffurfweddiad y llwyfan profi hwn ag EAL.

## Rhestr Adnoddau

| **Tasg 1** | **Nifer** |
|---|---|
| Toiled cypledig caeedig | 1 |
| Cysylltydd pan plyg 90$^0$ | 1 |
| Pibell garthion | 1500mm |
| Falf gwasanaeth 1/2" x 15mm (cysylltydd tap) | 1 |
| Sinc golchi dwylo | 1 |
| Tapiau sinc 1/2" | 2 |
| Teclyn gwastraff sinc | 1 |
| Trap sinc syth drwodd | 1 |
| Pibell wastraff 32mm (1 1/4") | 1m |
| Plygiad penelin 32mm (1 1/4") | 2 |
| Plygiad penelin Cysylltwr penelin gwryw a benyw 32mm (1 1/4") | 1 |
| Cysylltwyr tap hyblyg cywasgu 1/2" x 15mm | 2 |
| Plygiad penelin pen y cyflenwad 15mm | 4 |
| Cysylltwr T pen y cyflenwad 15mm | 3 |
| Falf draenio sodrog 15mm | 2 |
| Falf gwasanaeth uniongyrchol cywasgu 15mm | 2 |
| Pibell gopr 15mm | 7m |

**Manion eraill**

Fflwcs, sodr, padiau glanhau

Plygiau, sgriwiau a chlipiau i ategu pibellau (tiwb copr a phibell wastraff) ac offer

Cyfansawdd uniadu, PTFE

Cysylltiadau ar gyfer y bibell garthion derfynol i gael eu pennu gan y ganolfan i gyd-fynd â'u pibell pwt wedi'i phlymio ymlaen llaw

**Offer a chyfarpar:**

- Dewis o offer llaw priodol plymiwr
- Haclif
- Torrwr pibellau 15/22mm
- Plygwr pibellau 15/22 mm
- Lamp fflamio
- Dril a bitiau

## Canllawiau ar dasg 1 i ddysgwyr

Byddwch yn:

Gosod yr holl systemau a chydrannau perthnasol, gan wneud yn siŵr:

- Bod yr holl gyflenwadau sy'n dod i mewn yn ddigonol ar gyfer y gosodiadau newydd
- Bod gan yr holl offer glanweithdra ffitiadau gwastraff a therfynell wedi'u cydosod cyn gosod
- Bod gosodiad yr offer glanweithdra yn cydymffurfio â safonau'r diwydiant a chyfarwyddiadau gosod y gweithgynhyrchwr
- Bod yr holl osodiadau pibellau yn cydymffurfio â manyleb y ganolfan, â rheoliadau, ac â safonau'r diwydiant (h.y. goddefiannau + neu – 2mm) a chodau ymarfer
- Bod yr holl bibellau wedi'u clipio yn ôl manyleb BS
- Bod yr holl bibellau wedi'u hinswleiddio yn ôl manyleb BS, fel y bo'n briodol
- Nid oes modd dechrau gweithredu'r holl gydrannau a systemau pibellau nes bod y gwaith wedi'i gwblhau'n llawn

Dŵr oer:

- Bod pibell gwasanaeth dŵr oer i mewn yn MDPE wedi'i chysylltu â chopr gan ddefnyddio ffitiad cywasgu
- Bod yr holl bibellau cyflenwad dŵr oer mewn copr gan ddefnyddio ystod o ffitiadau capilari a chywasgu, cyplwyr, troadau, plygiad penelin a chysylltwyr T
- Bod y bibell gyflenwi dŵr oer wedi'i chysylltu â'r prif gyflenwad drwy'r falf cydbwyso fel rhan o dasg 2
- Bod pibellau'r system wedi'u profi i BSEN 806.

Dŵr poeth:

- Bod yr holl bibellau cyflenwad dŵr poeth ar gyfer offer glanweithdra mewn copr gan ddefnyddio ystod o ffitiadau capilari a chywasgu, cyplwyr, troadau, plygiad penelin a chysylltwyr T
- Bod y system dŵr poeth wedi'i chysylltu â'r tanc fel rhan o dasg 2
- Bod pibellau'r system wedi'u profi i BSEN 806.

Glanweithdra:

- Bod yr holl bibellau mewn plastig gan ddefnyddio ystod o ffitiadau gan gynnwys uniadau selio cylch, uniadau toddydd wedi'u weldio, uniadau cywasgu (trapiau) a chysylltydd pan i'r toiled
- Bod yr holl gysylltiadau pibellau gwastraff â'r bibell pwt wedi'u gwneud drwy faniffold


Profi'r systemau:

- Archwilio'r systemau ar ôl gosod gan wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd holl safonau perthnasol y diwydiant, ac yn profi cadernid pob math o system* yn ôl safon berthnasol y diwydiant.


*Bydd y systemau dŵr poeth a dŵr oer yn cael eu profi'n ffurfiol pan fydd yr holl dasgau perthnasol wedi'u cwblhau.

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni'r dasg hon.

# Manyleb Tasg 2: Tanc dŵr poeth (Opsiwn A)



# Manyleb Tasg 2: Tanc dŵr poeth (Opsiwn B)



## Canllawiau ar dasg 2 i'r asesydd

**Gwybodaeth i'r ganolfan**

Canolfannau i bennu ffurfweddiad pibellau ar sail y manylebau a ddarperir yng nghynllun Tasg 2.

Y cynhwysydd storio dŵr poeth a'r rheolaethau perthnasol i gydymffurfio â safonau'r diwydiant, y capasiti'n briodol i'r dimensiynau llunio a'r cydrannau/rheolaethau diogelwch i gael eu plymio ymlaen llaw. Bydd y dysgwr dim ond yn cysylltu'r bibell gyflenwi dŵr oer, pibell y cyflenwad dŵr poeth, a'r pibellau llif a dychwelyd o'r jig boeler system.

Gweithdrefnau a manylebau gosod y gweithgynhyrchwr yn cael eu bodloni'n llawn.
Centres to determine pipework configurations based on the specifications provided in the Cynllun Tasg 2: opsiynau A neu B yn seiliedig ar y cysylltiadau silindr sy'n cael eu defnyddio

Cydymffurfio â'r safonau Prydeinig perthnasol, Rheoliadau Adeiladau G3, a Rheoliadau Dŵr.

Iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r asesiad yn cael ei oruchwylio bob amser.

Gwneud yn siŵr bod yr holl waith sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio â:

Rheoliadau Adeiladu G3, Rheoliadau Dŵr, y safonau Prydeinig perthnasol, cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.

**Nodyn pwysig**

Rhaid peidio ag ychwanegu ffynhonnell wres at y gosodiad i gynhesu'r dŵr poeth sydd wedi'i storio.

Mae cysylltiadau pibellau llif a dychwelyd yn amrywio gyda chynhyrchwyr gwahanol; os yw'r cysylltiadau ar lefel isel, awgrymir y dylid gwneud llonyddiad (stillage) i godi'r llif a dychwelyd y cysylltiadau pibwaith yn ddigon uchel i gael y troadau gofynnol yn eu lle; mae'r llonyddiad i'w ffurfio ymlaen llaw gan y ganolfan a'i roi i'r ymgeisydd cyn i'r asesiad ddechrau ac esboniad o'i ddiben, rhaid i'r dysgwr feddu ar ddealltwriaeth lawn o ofynion y llonyddiad cyn i'r asesiad ddechrau.

## Rhestr adnoddau

| **Tasg 2** | **Nifer** |
|---|---|
| Silindr anuniongyrchol heb awyrdwll | 1 |
| Llonyddiad ar gyfer silindr (uchder i'w benderfynu gan y ganolfan, yn seiliedig ar gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr) | 1 (dewisol) |
| Falf cydbwyso dŵr oer – cyflawn | 1 |
| 15mm falf cywasgu gwasanaeth mewnlin | 3 |
| Cysylltiadau silindr 22mm syth | 4 |
| Cysylltwr penelin cywasgu 22mm | 1 |
| Falf draenio pen y cyflenwad 15mm | 1 |
| Falf gollwng aer 15mm | 1 |
| Cysylltydd T cyfartal pen y cyflenwad 22mm | 5 |
| Plygiad penelin pen y cyflenwad 22mm | 7 |
| Lleihawr 22mm x 15mm | 5 |
| Plygiad penelin pen y cyflenwad 15mm | 5 |
| Pibell gopr 15mm | 8m |
| Pibell gopr 22mm | 8m |

**Manion eraill**

Fflwcs, sodr, padiau glanhau

Plygiau, sgriwiau a chlipiau i ategu pibellau (tiwb copr a phibell wastraff) ac offer

Cyfansawdd uniadu, PTFE

**Offer a chyfarpar:**

- Dewis o offer llaw priodol plymiwr
- Haclif
- Torrwr pibellau 15/22mm
- Plygwr pibellau 15/22 mm
- Lamp fflamio
- Dril a bitiau

## Canllawiau ar dasg 2 i ddysgwyr

Byddwch yn:

Gwirio a chadarnhau diogelwch y lleoliad gwaith/ardal waith gyfagos

Dewis offer, deunyddiau, cydrannau a gosodiadau priodol i gyflawni'r gosodiad yn ôl templed tasg 2 a roddir gan yr asesydd ar gyfer system dŵr poeth heb awyrdwll a'r cydrannau.

Cyflawni'r dasg gosod system dŵr poeth heb awyrdwll yn ôl templed tasg 2 a roddir gan yr asesydd ar gyfer system dŵr poeth heb awyrdwll a'r cydrannau, gan gynnwys:

Gwiriadau cyn gosod:

- Bod y silindr heb awyrdwll o fath sydd wedi'i gymeradwyo ac mewn cyflwr da
- Bod y pibellau sydd wedi'u gosod yn bodloni'r gofynion statudol
- Mae cydrannau'r pibellau sydd wedi'u gosod mewn cyflwr da ac yn addas i'r silindr a'r system

Gosod y system dŵr poeth heb awyrdwll ac archwilio'r gosodiad i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio, a chadarnhau:

- Bod y bibell gyflenwi dŵr oer wedi'i chyflenwi drwy falf cydbwyso a bod y falf wedi'i osod yn y safle cywir
- Bod y silindr wedi'i osod yn y safle cywir, wedi'i gefnogi'n ddigonol, a'i fod yn wastad ac yn syth.
- Adnabod holl bibellau cyflenwi'r gosodiad yn gywir, a'u pwrpas
- Bod yr holl osodiadau pibellau yn cydymffurfio â manyleb y ganolfan, â rheoliadau, ac â safonau'r diwydiant (h.y. goddefiannau + neu – 2mm) a chodau ymarfer
- Bod yr holl bibellau wedi'u clipio yn ôl manyleb BS
- Bod yr holl bibellau wedi'u hinswleiddio yn ôl manyleb BS, fel y bo'n briodol
- Nid oes modd dechrau gweithredu'r holl gydrannau a systemau pibellau nes bod y gwaith wedi'i gwblhau'n llawn

Profi'r systemau:

- Archwilio'r systemau ar ôl gosod gan wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd holl safonau perthnasol y diwydiant, ac yn profi cadernid pob math o system* yn ôl safon berthnasol y diwydiant
- Bod pibellau'r system wedi'u profi i BSEN 806


*Bydd y systemau dŵr poeth a dŵr oer yn cael eu profi'n ffurfiol pan fydd yr holl dasgau perthnasol wedi'u cwblhau.

Gwneud yn siŵr bod yr holl waith sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio â:

Rheoliadau Adeiladu G3, Rheoliadau Dŵr, y safonau Prydeinig perthnasol, cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni'r dasg hon.

# Manyleb Tasg 3: Gwres canolog



## Canllawiau ar dasg 3 i'r asesydd

**Gwybodaeth i'r Ganolfan**

Canolfannau i bennu ffurfweddiad pibellau ar sail y manylebau a ddarperir yng nghynllun Tasg 3.

Gweithdrefnau a manylebau gosod y gweithgynhyrchwr yn cael eu bodloni'n llawn.

Cydymffurfio â'r safonau Prydeinig perthnasol, Rheoliadau Adeiladu, a Rheoliadau Dŵr.

Dylid defnyddio Tasg 3 ar y cyd â'r llwyfan dŵr poeth ar gyfer y cysylltiad silindr yn Nhasg 2.

Iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r asesiad yn cael ei oruchwylio bob amser.

Gwneud yn siŵr bod yr holl waith sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio â:

Rheoliadau Adeiladu, Rheoliadau Dŵr, y safonau Prydeinig perthnasol, cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.

## Rhestr adnoddau

| Tasg 3 | Nifer |
|---|---|
| Jig boeler – gallai hwn gynrychioli beth fyddai gweithgynhyrchwr yn ei gyflenwi | 1 |
| dolen lenwi | 1 |
| Falf draenio 1/2" | 4 |
| Cysylltydd T 22mm â 1/2" ar y cysylltydd T cangen | 4 |
| Falf gwasanaeth uniongyrchol cywasgu 15mm | 1 |
| 22mm gyda 15mm ar y cysylltwr T cangen pen y cyflenwad | 2 |
| Plygiad penelin pen y cyflenwad 22mm | 6 |
| Cysylltwr penelin cylch integrol wedi'i sodro 15mm | 7 |
| Plygiad penelin pen y cyflenwad 15mm | 1 |
| Cysylltwr T pen y cyflenwad 15mm | 2 |
| Falf draenio sodrog 15mm | 1 |
| Cysylltwyr penelin push-fit 15mm | 4 |
| Mewnosodiadau 15mm | 4 |
| Gwresogydd (tua 600mm x 600mm sengl) | 1 |
| Falg gwresogydd 15mm | 2 |
| Pibell blastig 15mm | 6m |
| Pibell gopr 15mm | 16m |
| Pibell gopr 22mm | 9m |

**Manion eraill**

Fflwcs, sodr, padiau glanhau

Plygiau, sgriwiau a chlipiau i ategu pibellau (tiwb copr a phibell blastig) ac offer

Cyfansawdd uniadu, PTFE

**Offer a chyfarpar:**

- Dewis o offer llaw priodol plymiwr
- Haclif
- Torrwr pibellau 15/22mm
- Plygwr pibellau 15/22 mm
- Lamp fflamio
- Dril a bitiau

## Canllawiau ar dasg 3 i ddysgwyr

Byddwch yn:

Gwirio a chadarnhau diogelwch y lleoliad gwaith/ardal waith gyfagos

Dewis offer, deunyddiau, cydrannau a gosodiadau priodol i gyflawni'r gosodiad yn ôl y templed Gosod Gwres Canolog a roddir gan yr asesydd.

Cyflawni'r dasg gosod gwres canolog yn ôl y templed Gosod Gwres Canolog a roddir gan yr asesydd, gan gynnwys:

Gwiriadau cyn gosod:

- Bod y cydrannau gwres canolog o fath sydd wedi'i gymeradwyo ac mewn cyflwr da
- Bod y pibellau sydd wedi'u gosod yn bodloni'r gofynion statudol
- Mae cydrannau'r pibellau sydd wedi'u gosod mewn cyflwr da ac yn addas i'r silindr a'r system

Gosod y system gwres canolog ar gyfer:

- Jig boeler
- Gwresogydd panel
- Cysylltiadau â silindr dŵr poeth

Archwilio'r gosodiad i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â chadarnhau:

- Bod y cydrannau wedi'u gosod yn y safle cywir, wedi'u cefnogi'n ddigonol, a'u bod yn wastad ac yn syth
- Adnabod holl bibellau cyflenwi'r gosodiad yn gywir, a'u pwrpas

Profi'r systemau:

- Archwilio'r systemau ar ôl gosod i wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd holl safonau perthnasol y diwydiant
- Bod pibellau'r system wedi'u profi i BSEN 806

Gwneud yn siŵr bod yr holl waith sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio â:

Rheoliadau Adeiladu, Rheoliadau Dŵr, y safonau Prydeinig perthnasol, cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni'r dasg hon.

# Grid marcio

Gan ddefnyddio'r disgrifiadau marcio isod ar gyfer pob elfen asesu, nodwch y marciau a roddir ar gyfer pob elfen. Os nad yw'r dysgwr yn cyflawni'r disgrifyddion a restrir yn erbyn elfen unigol (a, b, c ac ati), rhaid rhoi sgôr o 0 ar gyfer yr elfen honno. Yna, rhaid rhoi cyfanswm y marciau ar gyfer pob adran (gan gynnwys defnyddio unrhyw ffactorau graddio, a ddangosir yn y tablau isod) i greu marc cyffredinol ar gyfer y prosiect.

## Grid marcio'r elfen gynllunio

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Dyddiad asesu:** | |

| **a) Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg** | **Marc a enillwyd** |
|---|---|
| • yn llunio **rhestr adnoddau gydlynol** sy'n nodi'r deunyddiau a'r offer sylfaenol allweddol sydd eu hangen i gwblhau'r prif agweddau ar y prosiect. | **1** |
| *neu* | |
| • yn llunio **rhestr drylwyr o adnoddau meintioledig** gan gynnwys y deunyddiau a'r offer perthnasol sydd eu hangen i gwblhau'r dasg (gellir hepgor rhai eitemau o'r rhestr). | **2** |
| *neu* | |
| • yn llunio **rhestr lawn a chyflawn o adnoddau meintioledig**, gan gynnwys deunyddiau, offer ac unrhyw gyfarpar a manion perthnasol. | **3** |
| **b) Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cyflawni'r dasg** | **Marc a enillwyd** |
| • yn paratoi datganiad dull ac asesiad risg **cydlynol** gydag **amcan o'r dyddiad cwblhau**. | **1** |
| *neu* | |
| • **yn dehongli'n gywir y diagramau** a ddarperir i baratoi datganiad dull ac asesiad risg **cydlynol ac ystyrlon**, gan nodi cerrig milltir. | **2** |
| *neu* | |
| • **yn dehongli diagramau'n gywir i** baratoi datganiad dull ac asesiad risg **cynhwysfawr** gyda **cherrig milltir manwl ac ystyrlon** sy'n berthnasol i'r dasg. | **3** |

| c) Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes gwasanaethau adeiladu | Marc a enillwyd |
|---|---|
| • yn llunio amcangyfrif i'r cwsmer sy'n cynnwys **trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud, faint o amser y bydd yn ei gymryd a'r pris cyffredinol** | 1 |
| neu | |
| • yn llunio amcangyfrif i'r cwsmer sy'n cynnwys **trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud, faint o amser y bydd yn ei gymryd a'r pris cyffredinol** sy'n dangos **sut defnyddiwyd cyfanswm y gost a maint yr elw i bennu hyn** | 2 |
| neu | |
| • yn llunio amcangyfrif i'r cwsmer sy'n cynnwys **trosolwg clir o'r gwaith sydd i'w wneud, faint o amser y bydd yn ei gymryd a'r pris cyffredinol** sy'n **dangos dadansoddiad manwl o'r holl gostau a ddefnyddiwyd i bennu hyn** | 3 |
| **d) Sut i amcangyfrif yr amser sydd ei angen** | **Marc a enillwyd** |
| • yn llunio datganiad dull, gan gynnwys amserlen waith, sy'n nodi'r **prif weithgareddau sylfaenol ac amserlen gyffredinol tasgau'r** prosiect | 1 |
| *neu* | |
| • yn llunio datganiad dull, gan gynnwys amserlen waith, sy'n nodi'r **prif dasgau a gweithgareddau** ac yn **amcangyfrif y gofynion amser** ar gyfer y rhain | 2 |
| *neu* | |
| • yn llunio datganiad dull, gan gynnwys amserlen waith, sy'n cynnwys **amcangyfrifon realistig** o'r gofynion amser ar gyfer gweithgareddau allweddol o fewn tasgau ac ar gyfer y prosiect yn gyffredinol, ac yn nodi **dibyniaethau** perthnasol rhwng gweithgareddau a thasgau | 3 |
| **e) Nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg** | **Marc a enillwyd** |
| • yn gosod meini prawf llwyddiant **cydlynol** yn eu cynllun<br>• yn nodi meini prawf llwyddiant allweddol ar gyfer tasg y prosiect | 1 |
| *neu* | |
| • yn gosod meini prawf llwyddiant **cydlynol ac ystyrlon** yn eu cynllun<br>• yn disgrifio eu perthnasedd i brif agweddau'r dasg | 2 |
| *neu* | |
| • yn gosod meini prawf llwyddiant **cynhwysfawr** yn eu cynllun<br>• yn cyfiawnhau pam mae'r meini prawf llwyddiant hynny wedi cael eu dewis ac yn eu cysylltu â'r dasg | 3 |
| Marc a enillwyd | /15 |
| **Cyfanswm = marc a enillwyd x 6** | **/90** |

**Dim ond y marc ar gyfer y cynllun â'r sgôr uchaf fydd yn cyfrannu at farc cyffredinol y prosiect.**

Bydd marciau yn adran gynllunio'r Prosiect Ymarferol, yn cael eu lluosi â 6 i greu cyfanswm y marciau ar gyfer yr adran hon o'r prosiect.

## Grid marcio perfformiad

| **Tasg 1 – Sinc golchi dwylo a thoiled<br>Adran A Mesur a Marcio Allan** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal y mesuriad o ganol seston y toiled i'r wal ochr chwith (1500mm) | **A1** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesur o'r porthiant oer i'r basn i'r wal dde (750mm) | **A2** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesur o'r porthiant poeth i'r basn i'r wal dde (850mm) | **A3** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad o ganol y falf draenio i'r wal ochr chwith (900mm) | **A4** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad o'r cyflenwadau fertigol poeth ac oer i ganol y sinciau (100mm) | **A5** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad o'r cyflenwadau fertigol poeth ac oer i'r wal ochr chwith (50mm) | **A6** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| **Adran B Iechyd a Diogelwch**<br>**Pwyntiau allweddol**<br>• Rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) yn unol ag asesiad risg y ganolfan ei hun<br>• Ardal waith daclus.<br>Os nodir unrhyw fân ddiffyg, rhaid tynnu marciau yn ôl y rhestr.<br>Dim un mân ddiffyg (3 marc), 1-2 mân ddiffyg (2 farc), 3 mân ddiffyg (1 marc), 4+ mân ddiffyg ac mae'r asesiad yn dod i ben a chaiff y dysgwr ei gyfeirio ymlaen.<br>**Rhaid i'r asesiad ddod i ben ar unwaith os oes diffyg mawr o ran iechyd a diogelwch, a fyddai hefyd yn cael ei ystyried yn fethiant.** | | | | |
| | | **Marciau** | | |

| Mae'r dysgwr wedi | | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|
| Cadw'r ardal waith yn lân a thaclus | | 3 | 1-2 | Dim |
| Gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol yn ôl yr angen | | 3 | 1-2 | Dim |

Dylid rhoi rhybuddion lle mae'r dysgwyr yn gweithio'n anniogel ac yn rhoi eu hunain a / neu bobl eraill mewn perygl.

Yr asesydd i gofnodi'r diffyg(ion):

**Adran C Troadau, Onglau a Chliriadau**

Archwiliad gweledol yn unig yw'r rhan yma

- Ansawdd y pibellau penelin – chwilio am ddim crychau na bod y pibellau penelin yn cael eu tynnu.

Argymhellir bod troadau wedi'u ffurfio ymlaen llaw yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses farcio


- Gellir defnyddio onglydd
- Goddefiant y troadau yw +/- $1^0$

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal y passover oer 15mm ar waelod clirio'r basn (20mm) | **C1** | ± 6 mm | ± 4 mm | ± 2 mm |
| Cynnal y set oer 15mm i waelod y brif falf gwasanaeth toiled (100mm) | **C2** | ± 6 mm | ± 4 mm | ± 2 mm |

| Adran D Gwastad a syth<br><br>Wrth wirio a yw'n wastad ac yn syth, ni ddylai'r swigen yn y lefel saer grwydro dros y llinell. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Marciau | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal y gostyngiad cywir ar rediad llorweddol y teclyn gwastraff sinc i'r bibell pwt | **D1** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw rhediad fertigol y bibell gopr 15mm oer i dap y sinc yn syth | **D2** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw'n lefal y bibell Cu 15mm sydd yn dod allan o waelod y brif falf gwasanaeth toiled | **D3** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw'n lefal ar draws troadau'r passover ar borthiant oer i fasn | **D4** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw lefel y porthiant oer llorweddol o fasn i wal ochr dde | **D5** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw'r bibell gyflenwi dŵr poeth lorweddol o'r sinc i'r wal ochr chwith yn syth | **D6** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw'r bibell gyflenwi dŵr oer fertigol i'r toiled yn syth | **D7** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran E Defnyddio, Gosod Allan a Chyflwyno Deunyddiau**<br><br>Cyn i'r dysgwr ddechrau, dywedwch wrtho am archwilio ei ardal waith a nodi unrhyw farciau neu losgiadau sydd yno'n barod, a gofyn i'r asesydd roi cylch o'u hamgylch a'u cofnodi i wneud yn siŵr nad ydynt yn cael eu hystyried yn y marciau terfynol. Dylid egluro'r gosb am ddefnyddio deunyddiau/ffitiadau ychwanegol.<br><br>• Ansawdd yr uniadau – chwilio am ddim difrod gan offer i'r ffitiadau, pibell yn ymuno â'r ffitiad ar ongl o $90^0$ | | | | |
| | | | **Marciau** | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Wedi defnyddio'r clipiau a'r bylchau cywir | **E1** | ☐ | | |
| Uniadu yr uniad cywasgu gwaelod ar y falf ynysu â seston y toiled heb unrhyw ddifrod gan offer i'r ffitiad, a'r bibell yn ymuno â'r ffitiad ar ongl o $90^0$ | **E2** | ☐ | | |
| Uniadu cymal tee dŵr oer 15mm sy'n mynd i fasn a seston heb rediadau solder na blobiau gweladwy | **E3** | ☐ | | |
| Uno'r dŵr poeth 15mm o'r copr i'r fflecs heb unrhyw ddifrod gan offer i'r ffitiad, a'r bibell yn ymuno â'r ffitiad ar ongl o 90° | **E4** | ☐ | | |
| Uniadu y cysylltydd hyblyg dŵr oer wedi'i gymalu i dapio heb unrhyw ddifrod offeryn i osod ac ystwytho heb ei droelli | **E5** | ☐ | | |
| Profi'r gosodiad gorffenedig heb ddod o hyd i unrhyw beth yn gollwng | | ☐ | | |
| Defnyddio dim cyplau na phibellau ychwanegol ac mae'r dasg wedi'i chwblhau'n unol â'r darlun (caniateir 2 ddarn x 1m ar y mwyaf neu 2 gwpwl neu un darn o bibell ac 1 cwpwl – tynnir 1 marc am bob darn 1m neu gwpwl ychwanegol y gofynnir amdano) | | ☐ +2 | ☐ +1 | ☐ Dim byd ychwanegol |
| Is-gyfanswm | | /24 | /36 | /54 |
| Cyfanswm Cyffredinol | | | | / 60 |

# Amserlen farcio Tasg 1



## Grid marcio perfformiad

| Tasg 2 – Silindr dŵr poeth<br>Adran A Mesur a Marcio Allan | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Marciau | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal y mesuriad o ganol y silindr i'r wal gefn (450mm) | **A1** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad o ganol y silindr i'r wal ochr chwith (450mm) | **A2** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad o'r llawr i ganol y falf cydbwyso (450mm) | **A3** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesur o ganol jig boeler i'r pwynt llenwi dychwelyd dŵr poeth (150mm) | **A4** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad rhwng y porthiant oer a'r dŵr poeth dychwelyd canolfannau pibellau llorweddol (50mm) | **A5** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |

**Adran B Iechyd a Diogelwch**

**Pwyntiau allweddol**

- Rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) yn unol ag asesiad risg y ganolfan ei hun
- Ardal waith daclus.

Os nodir unrhyw fân ddiffyg, rhaid tynnu marciau yn ôl y rhestr.

Dim un mân ddiffyg (3 marc), 1-2 mân ddiffyg (2 farc), 3 mân ddiffyg (1 marc), 4+ mân ddiffyg ac mae'r asesiad yn dod i ben a chaiff y dysgwr ei gyfeirio ymlaen.

**Rhaid i'r asesiad ddod i ben ar unwaith os oes diffyg mawr o ran iechyd a diogelwch, a fyddai hefyd yn cael ei ystyried yn fethiant.**

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Cadw'r ardal waith yn lân a thaclus | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |
| Gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol yn ôl yr angen | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |

Dylid rhoi rhybuddion lle mae'r dysgwyr yn gweithio'n anniogel ac yn rhoi eu hunain a / neu bobl eraill mewn perygl.

Yr asesydd i gofnodi'r diffyg(ion):

**Adran C Troadau, Onglau a Chliriadau**

Archwiliad gweledol yn unig yw'r rhan yma

- Ansawdd y pibellau penelin – chwilio am ddim crychau na bod y pibellau penelin yn cael eu tynnu.

Argymhellir bod troadau wedi'u ffurfio ymlaen llaw yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses farcio

- Gellir defnyddio onglydd
- Goddefiant y troadau yw +/- $1^0$

| | | **Marciau** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal cliriad pontio 15mm y bibell gyflenwi dŵr oer (20mm) o'r falf cydbwyso i'r bibell gyflenwi dŵr oer waelod | **C1** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal troad $90^0$ 22mm y cyflenwad dŵr poeth o'r silindr | **C2** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal cliriad pontio 22mm y bibell dychwelyd dŵr poeth (20mm) o'r silindr | **C3** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |

| Adran D Gwastad a syth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wrth wirio a yw’n wastad ac yn syth, ni ddylai’r swigen yn y lefel saer grwydro dros y llinell. | | | | |
| | | **Marciau** | | |
| **Mae’r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cadw’r bibell gopr 22mm boeth lorweddol o dop y silindr yn wastad | **D1** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw’r bibell gopr 15mm rhwng y troadau pontio o’r falf cydbwyso i’r bibell gyflenwi dŵr oer waelod yn syth | **D2** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cynnal yn lefel ar draws troadau'r passover ar lif dŵr poeth i'r silindr | **D3** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw’r cyflenwad dŵr poeth fertigol i’r silindr yn syth i lawr y wal gefn | **D4** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw’r bibell dychwelyd dŵr poeth fertigol i’r silindr yn syth | **D5** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw’r bibell gyflenwi dŵr oer lorweddol o’r falf cydbwyso i’r silindr yn wastad | **D6** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw’r bibell dychwelyd dŵr poeth lorweddol i’r silindr yn wastad | **D7** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |


**Adran E Defnyddio, Gosod Allan a Chyflwyno Deunyddiau**

Cyn i'r dysgwr ddechrau, dywedwch wrtho am archwilio ei ardal waith a nodi unrhyw farciau neu losgiadau sydd yno'n barod, a gofyn i'r asesydd roi cylch o'u hamgylch a'u cofnodi i wneud yn siŵr nad ydynt yn cael eu hystyried yn y marciau terfynol. Dylid egluro'r gosb am ddefnyddio deunyddiau/ffitiadau ychwanegol.


- Ansawdd yr uniadau – chwilio am ddim difrod gan offer i'r ffitiadau, pibell yn ymuno â'r ffitiad ar ongl o $90^0$

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Wedi defnyddio'r clipiau a'r bylchau cywir | **E1** | | | |
| Uniad cywasgu gwaelod ar y plygiad penelin ar dop y silindr heb unrhyw ddifrod gan offer i'r ffitiad ac mae'r bibell yn ymuno â'r ffitiad ar ongl o $90^0$ | **E2** | | | |
| Uniad penelin Swydd Efrog 15mm dŵr oer yn mynd o dan y falf cydbwyso heb unrhyw rediad na swigod sodro i'w gweld | **E3** | | | |
| Peiriant-blygu'r bibell gyflenwi dŵr poeth gopr heb unrhyw rychau nac arwydd o gael ei thynnu | **E4** | | | |
| Uno'r cysylltydd T ar bibell gyflenwi dŵr oer y silindr dŵr poeth heb unrhyw rediad na swigod sodro i'w gweld | **E5** | | | |
| Profi'r gosodiad gorffenedig heb ddod o hyd i unrhyw beth yn gollwng | | | | |
| Defnyddio dim cyplau na phibellau ychwanegol ac mae'r dasg wedi'i chwblhau'n unol â'r darlun (caniateir 2 ddarn x 1m ar y mwyaf neu 2 gwpwl neu un darn o bibell ac 1 cwpwl – tynnir 1 marc am bob darn 1m neu gwpwl ychwanegol y gofynnir amdano) | | +2 | +1 | Dim byd ychwanegol |
| Is-gyfanswm | | /24 | /36 | /54 |
| Cyfanswm Cyffredinol | | | | / 60 |

## Amserlen farcio Tasg 2 (Opsiwn A)



# Amserlen farcio Tasg 2 (Opsiwn B)



## Grid marcio perfformiad

| Tasg 3 - Gwres Canolog<br>Adran A Mesur a Marcio Allan | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Marciau | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal y mesuriad o ganol y jig boeler i'r llaw (1000mm) | **A1** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesur o ganol jig y boeler i'r wal dde (1500mm) | **A2** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesur rhwng llif gwres canolog Cu 22mm a'r dychwelyd i'r canolfannau llorweddol o jig i wal dde (50mm) | **A3** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad rhwng canol y pibellau llif a dychwelyd gwres canolog llorweddol plastig 15mm uwchben y gwresogydd (50mm) | **A4** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad rhwng canol y pibellau llif a dychwelyd gwres canolog llorweddol copr 15mm uwchben i'r gwresogydd (50mm) | **A5** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal y mesuriad rhwng canol y pibellau llif a dychwelyd gwres canolog fertigol copr 15mm ar y wal (50mm) | **A6** | ☐ ± 10 mm | ☐ ± 5 mm | ☐ ± 2 mm |

**Adran B Iechyd a Diogelwch**

**Pwyntiau allweddol**

- Rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) yn unol ag asesiad risg y ganolfan ei hun
- Ardal waith daclus.

Os nodir unrhyw fân ddiffyg, rhaid tynnu marciau yn ôl y rhestr.

Dim un mân ddiffyg (3 marc), 1-2 mân ddiffyg (2 farc), 3 mân ddiffyg (1 marc), 4+ mân ddiffyg ac mae'r asesiad yn dod i ben a chaiff y dysgwr ei gyfeirio ymlaen.

**Rhaid i'r asesiad ddod i ben ar unwaith os oes diffyg mawr o ran iechyd a diogelwch, a fyddai hefyd yn cael ei ystyried yn fethiant.**

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Cadw'r ardal waith yn lân a thaclus | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |
| Gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol yn ôl yr angen | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |

Dylid rhoi rhybuddion lle mae'r dysgwyr yn gweithio'n anniogel ac yn rhoi eu hunain a / neu bobl eraill mewn perygl.

Yr asesydd i gofnodi'r diffyg(ion):

| Adran C Troadau, Onglau a Chliriadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad gweledol yn unig yw'r rhan yma<br>• Ansawdd y pibellau penelin – chwilio am ddim crychau na bod y pibellau penelin yn cael eu tynnu.<br><br>Argymhellir bod troadau wedi'u ffurfio ymlaen llaw yn cael eu defnyddio ar gyfer y broses farcio<br>• Gellir defnyddio onglydd<br>• Goddefiant y troadau yw +/- $1^0$ | | | | |
| | | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cynnal cliriad pontio'r bibell llif 22mm (20mm) | **C1** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal cliriad pontio'r bibell dychwelyd 22mm (20mm) | **C2** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal troad $90^0$ y bibell llif gwres 22mm | **C3** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |
| Cynnal troad $90^0$ y bibell dychwelyd gwres 22mm | **C4** | ☐ ± 6 mm | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm |

| Adran D Gwastad a syth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wrth wirio a yw'n wastad ac yn syth, ni ddylai'r swigen yn y lefel saer grwydro dros y llinell. | | | | |
| | | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **ID y dasg** | **1** | **2** | **3** |
| Cadw top y jig boeler yn wastad | **D1** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw top y gwresogydd yn wastad | **D2** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw'r bibell gyflenwi blastig dop uwchben y gwresogydd yn syth | **D3** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cadw’r holl ddwseli draenio ar y pibellau llif a dychwelyd yn syth | **D4** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |
| Cadw’r troad peiriant ar y bibell dychwelyd gwres yn syth | **D5** | ☐ ± 4 mm | ☐ ± 2 mm | ☐ o fewn y llinellau |

**Adran E Defnyddio, Gosod Allan a Chyflwyno Deunyddiau**

Archwiliad gweledol yn unig yw’r rhan yma

- Ansawdd yr uniadau – chwilio am ddim difrod gan offer i’r ffitiadau, pibell yn ymuno â’r ffitiad ar ongl o $90^0$
- Ansawdd y pibellau penelin – chwilio am ddim crychau na bod y pibellau penelin yn cael eu tynnu.


Dylid egluro’r gosb am ddefnyddio deunyddiau/ffitiadau ychwanegol.

Unrhyw brofion i’w cwblhau o fewn yr amser penodedig (caniateir i ddysgwyr brofi’r gwahanol osodiadau faint bynnag o weithiau, ond dim ond unwaith y gellir perfformio’r prawf swyddogol gyda’r asesydd a dyma’r canlyniad sy’n rhaid ei gofnodi).

| | | **Marciau** | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae’r dysgwr wedi** | **ID y dasg 7** | **1** | **2** | **3** |
| Wedi defnyddio’r clipiau a’r bylchau cywir | **E1** | ☐ | | |
| Uno ochr chwith uchaf y ffitiad push fit llif 15mm heb unrhyw ddifrod gan offer i’r ffitiad ac mae’r bibell yn ymuno â’r ffitiad ar ongl o $90^0$ | **E2** | ☐ | | |
| Uno’r lleihawr ar y bibell dychwelyd gwres heb unrhyw rediad na swigod sodro i’w gweld | **E3** | ☐ | | |
| Peiriant-blygu’r bibell llif gwres gopr heb unrhyw rychau nac arwydd o gael ei thynnu | **E4** | ☐ | | |
| Uno’r plygiad penelin ar y bibell dychwelyd dŵr poeth heb unrhyw rediad na swigod sodro i’w gweld | **E5** | ☐ | | |
| Profi’r gosodiad gorffenedig heb ddod o hyd i unrhyw beth yn gollwng | | ☐ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio dim cyplau na phibellau ychwanegol ac mae'r dasg wedi'i chwblhau'n unol â'r darlun (caniateir 2 ddarn x 1m ar y mwyaf neu 2 gwpwl neu un darn o bibell ac 1 cwpwl – tynnir 1 marc am bob darn 1m neu gwpwl ychwanegol y gofynnir amdano) | | ☐ +2 | ☐ +1 | ☐ Dim byd ychwanegol |
| Is-gyfanswm | | /24 | /36 | /54 |
| Cyfanswm Cyffredinol | | / 60 | | |

# Tasg 3 Amserlen farcio




**Nodyn pwysig:**
**Nid yw'r diagram i raddfa Dylid lleoli clipiau pibellau yn ôl yr angen.**
**Mae'r holl ffitiadau wedi'u sodro yn uniadau capilari pen y cyflenwad oni nodir yn wahanol**

## Grid marcio ar gyfer gwerthuso

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | | |
| **Dyddiad asesu:** | | |
| **Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddo** | | **Marciau a enillwyd** |
| • nid yw'n cynhyrchu gwerthusiad **cydlynol**<br>• nid yw prif ddeilliannau'r prosiect yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad gwerthuso | | **0** |
| **neu** | | |
| • wedi cynhyrchu gwerthusiad **cydlynol**<br>• myfyrio ar berfformiad personol mewn adroddiad yn gwerthuso **prif ganlyniadau** tasgau'r prosiect | | **1** |
| **neu** | | |
| • wedi cynhyrchu gwerthusiad **cydlynol ac ystyrlon**<br>• wedi disgrifio ei **berfformiad** yn yr adroddiad gwerthuso **yn erbyn ei meini prawf llwyddiant ei hun a gofynion y dasg** sy'n ymwneud â'r **prif weithgareddau a chanlyniadau pob tasg** | | **2** |
| **neu** | | |
| • wedi cynhyrchu gwerthusiad **cynhwysfawr helaeth**<br>• wedi llunio **gwerthusiad llawn** mewn adroddiad sydd wedi'i ysgrifennu'n dda **o'i berfformiad yn erbyn ei meini prawf llwyddiant a gofynion y dasg** gan ddangos **ei gryfderau/gwendidau a'r gwersi a ddysgwyd** | | **3** |
| | **Marc a enillwyd** | |
| | **Cyfanswm = marc a enillwyd x 14** | **/42** |

Bydd marciau yn adran gwerthuso'r Prosiect Ymarferol yn cael eu lluosi â 14 i greu cyfanswm y marciau ar gyfer yr adran hon o'r prosiect.

# Marc cyffredinol y Prosiect Ymarferol

Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm y marciau sydd ar gael ym mhob adran o’r prosiect ymarferol a'r marc isaf y mae'n rhaid ei gael ym mhob adran.

| Adran y Prosiect | Marciau Ar Gael | Marciau a Ddyfarnwyd | Trothwy’r Marc Llwyddo |
|---|---|---|---|
| Cynllunio (cynllun sy’n sgorio uchaf) | 90 | | 30 |
| Tasg Crefft 1 | 60 | | 24 |
| Tasg Crefft 2 | 60 | | 24 |
| Tasg Crefft 3 | 60 | | 24 |
| Gwerthuso | 42 | | 14 |
| Cyfanswm | 312 | | 116 |

Enw'r Asesydd: ______________________ Enw’r dysgwr: ______________________

Llofnod yr asesydd: ______________________ Dyddiad: ______________________

Rhaid cael cyfanswm y marciau a roddir ym mhob adran a’u cyfuno i greu marc cyffredinol ar gyfer y prosiect. Mae’r tabl isod yn dangos y radd i’w dyfarnu ar sail marc cyffredinol y dysgwr.

**Sylwer**: mae’r marc llwyddo trothwy yn dangos y sgôr isaf y mae’n rhaid i ddysgwyr ei chyrraedd ym mhob rhan o’r prosiect, ond nid yw’n gosod y sgôr isaf y mae’n rhaid ei chyrraedd yn gyffredinol – mae cyfanswm y marc sy’n ofynnol i lwyddo yn yr asesiad hwn i’w weld yn y tabl isod.

## Pennu gradd gyffredinol

Mae'r tabl isod yn dangos faint o farciau sydd eu hangen yn gyffredinol i gyflawni pob gradd yn yr elfen asesu hon:

| Cyfanswm Marciau | Gradd | Pwyntiau |
|---|---|---|
| 0 - 115 | Methu | 0 |
| 116 - 143 | P1 | 1 |
| 144 - 171 | P2 | 2 |
| 172 - 199 | M1 | 3 |
| 200 - 227 | M2 | 4 |
| 228 - 255 | D1 | 5 |
| 256 - 283 | D2 | 6 |
| 284 - 312 | D3 | 7 |

Rhaid i'r asesydd ddefnyddio'r tabl hwn i gyfrifo gradd dros dro ar gyfer y dysgwr. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol, ac yna gweithgarwch sicrhau ansawdd allanol a fydd yn cael ei gwblhau gan EAL. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i EAL a bydd gradd derfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan EAL.

## Gradd dros dro y Prosiect Ymarferol

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr** | |
| **Dyddiad** | |
| **Cyfanswm y Marciau a Enillwyd** | |
| **Gradd dros dro y Prosiect Ymarferol** | |
| **Enw'r asesydd** | |
| **Llofnod yr asesydd** | |

## 3.2 Brîff asesiad trydanol

Mae cleient wedi contractio eich cwmni i gyflawni tri gosodiad trydanol mewn cyfleuster pacio.  Un mewn swyddfa fach, un mewn ardal storio, ac un yn y warws pacio.  Dangosir y rhain yn y manylebau tasg canlynol a byddant yn rhan o un prosiect cyffredinol.  Y cyflenwad trydan yn yr uned defnyddiwr yw 230 V AC.

Mae tair elfen i'r prosiect hwn: cynllunio, perfformio a gwerthuso.

Mae gennych:

- **14 awr** wedi'u neilltuo i gynllunio'r tair tasg (cynllunio)
- **40 awr** wedi'u neilltuo i gyflawni'r tair tasg (cyflawni)
- **6 awr** i werthuso'r tair tasg yn y prosiect (gwerthuso).

Chewch chi ddim defnyddio'r amser a roddwyd i chi ar gyfer pob elfen ar gyfer elfen arall, hy os byddwch yn cwblhau eich gwaith cynllunio mewn 12 awr, chewch chi ddim defnyddio'r ddwy awr arall ar gyfer yr elfennau cyflawni na gwerthuso.

Bydd gofyn i chi lunio cynllun yn dangos y dull y byddwch yn ei ddefnyddio i ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol yn y tasgau cyflawni, wedi'i ategu gan amserlen waith gyffredinol.

Ar ôl cwblhau'r dasg osod, bydd gofyn i chi werthuso eich gwaith.

Rhaid i chi ddilyn yr holl reolau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol bob amser.

## Canllawiau i ddysgwyr – tasg 1

Mae'r dasg hon yn cynnwys gosod 2 gylched sy'n cynnwys:

- **Cylched goleuadau dwyffordd a theirffordd (*intermediate*)** i un ffitiad golau wedi'i weirio gyda chebl proffil fflat 1 $mm^2$ PVC/PVC wedi'i glipio'n uniongyrchol. Defnyddiwch y dull weirio dolen.

- **Cylched cylch terfynol wedi'i weirio** gyda chebl proffil fflat PVC/PVC wedi'i glipio'n uniongyrchol i'r socedi swits (SSO). Mae soced 'A' wedi'i weirio drwy sbardun.

- Mae gofyn i chi hefyd osod 2 soced data wedi'u weirio gyda chebl Cat 5e. Mae'r cebl data wedi'i osod mewn tryncin bach (MT2, gyda throad meitrog).

**Fel rhan o'r elfen gynllunio, bydd angen i chi wneud y canlynol:**
- cynhyrchu diagram weirio ar gyfer y cylched goleuadau
- dewis y ddyfais ddiogelu â nerth priodol ar gyfer y cylched goleuadau
- dewis cebl maint priodol (dargludydd CSA $mm^2$ o leiaf) a nerth dyfais ddiogelu ar gyfer y cylched cylch terfynol gan ddefnyddio gwybodaeth am drefniant cylched safonol (o Ganllaw Safle'r IET)

Gallwch hefyd ddefnyddio unrhyw nodiadau neu gyhoeddiadau perthnasol i'ch helpu gyda'r dasg.

Gall eich asesydd addasu'r mesuriadau, cydrannau a chynllun er mwyn gweddu i'r cyfleusterau lleol.


Gwneud gwaith prif fondio amddiffynnol ar y bibell ddŵr a therfynu dargludydd y cebl i'r clamp gan ddefnyddio'r llabed gylch wedi'i chrimpio o'r maint cywir.

Gosod yn unol ag arferion y diwydiant, gofynion cyfredol BS 7671 a Chanllaw Safle IET. Gwneud profion wedi'u dad-egnïo (parhad y dargludydd diogelu, parhad y cylchedau cylch terfynol, ymwrthedd yr ynysydd, polaredd) **a chofnodi canlyniadau eich profion**.

Dylech archwilio eich gwaith wrth osod.

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni'r dasg hon.

# Manyleb Tasg 1




**NID YW'R LLUNIAD I RADDFA. Mae'r holl fesuriadau mewn mm.**

**Canol y nenfwd: mae'r llinell ddotiog yn cynrychioli canol y nenfwd, felly bydd pellteroedd clipio i gydrannau'r nenfwd o'r uned defnyddiwr yn dibynnu ar faint y bae. Nodi'r Dimensiwn 'X' gan yr Asesydd.**

## Canllawiau i'r asesydd – tasg 1

Fel rhan o elfen gynllunio'r asesiad, bydd angen i'r dysgwr gynhyrchu diagram weirio ar gyfer y cylched goleuadau a dewis y deunyddiau/cydrannau perthnasol nad ydynt wedi'u nodi yn y cyfarwyddiadau (h.y. ceblau a dyfeisiau diogelu) i'w cynnwys yn eu rhestr deunyddiau. Caiff hefyd ddefnyddio cyhoeddiadau/nodiadau perthnasol eraill i'w helpu i gwblhau'r dasg.

Pwrpas y 2 bwynt data yw efelychu a galluogi ffynhonnell i gael ei phlygio i mewn i un pen a defnyddiwr i'r llall.

Mae'r uned defnyddiwr a'r bibell fetel wedi'u gosod ymlaen llaw. Gellir addasu'r mesuriadau a'r cynllun er mwyn gweddu i'r cyfleusterau lleol. Nodi dimensiwn X. Gellir amnewid cydrannau.

Mae angen i'r dysgwr wneud y canlynol:

- gosod yn unol ag arferion y diwydiant, gofynion cyfredol BS 7671 a Chanllaw Safle IET.
- gwneud profion wedi'u dad-egnïo (parhad y dargludydd diogelu, parhad y cylchedau cylch terfynol, ymwrthedd yr ynysydd, polaredd) a chofnodi canlyniadau eu profion.

Mae angen i ganolfannau wneud yn siŵr bod ardal addas ar gael i ddysgwyr.

Disgwylir i'r dysgwyr weithio'n annibynnol drwy gydol y dasg.

Tasg 1 Rhestr adnoddau

| **Deunyddiau** | **Nifer** |
|---|---|
| Cwndid bach (MT2) | 800 mm |
| Swits dwyffordd 1 gang | 2 |
| Swits teirffordd 1 gang | 1 |
| Set goleuadau crog/ffitiad golau | 1 |
| SSO 2 gang | 3 |
| Bocs patres sengl ar y wyneb – switsys golau | 3 |
| Bocs patres sengl ar y wyneb – socedi data | 2 |
| Bocs patres dwbl ar y wyneb - SSO | 3 |
| Addasydd bocs wyneb cwndid bach | 2 |
| Cebl data Cat 5e | 1 m |
| CB Math B 6 A | 1 |
| CB Math B 32 A | 1 |
| - ac unrhyw ddeunyddiau ychwanegol/dewisiadau eraill addas yn lle'r deunyddiau a nodwyd | Amherthnasol |

**Manion eraill:**

- Sgriwiau pren
- Clipiau cebl
- Llewys gwyrdd a melyn
- Llewys brown
- Lamp
- Uned defnyddiwr a chysylltiadau gwag os oes angen
- Cebl proffil fflat 1mm$^2$ PVC/PVC
- Cebl proffil fflat 2.5 mm$^2$ PVC/PVC
- Pibell fetel (ar gyfer bondio amddiffynnol)
- Llabed gylch ar gyfer bondio amddiffynnol ac amrywiaeth o feintiau anghywir.

**Offer a chyfarpar:**

- Dewis o offer llaw trydanwr
- Offeryn terfynu cebl data
- Haclif
- Sgwaryn meitro
- Cyfarpar i gynnal profion ar gylchedau wedi'u dad-egnïo.

## Canllawiau i ddysgwyr – tasg 2

Mae'r dasg hon yn cynnwys gosod 3 cylched gan gynnwys:

- **Cylched socedi cylch terfynol** wedi'i weirio gyda cheblau craidd sengl PVC mewn cwndid PVC.

- **Cylched goleuadau** ar gyfer 2 ffitiad golau wedi'u weirio gyda cheblau craidd sengl PVC 1.5 $mm^2$ mewn cwndid PVC.


  Mae lamp **A** yn cael ei reoli o ddau safle gan switsys **A**.
  Mae lamp **B** yn cael ei reoli gan swits **B**.

- **Cylched terfynol rheiddiol** 6-amp ar gyfer synhwyrydd mwg, wedi'i weirio gyda chebl perfformiad tân 1.5 $mm^2$ (fel FP200).

**Fel rhan o'r elfen gynllunio, bydd angen i chi wneud y canlynol:**
- cynhyrchu diagram weirio ar gyfer y cylched goleuadau
- dewis cebl maint priodol (dargludydd CSA $mm^2$ o leiaf) a nerth dyfais ddiogelu ar gyfer y cylched cylch terfynol gan ddefnyddio gwybodaeth am drefniant cylched safonol (o Ganllaw Safle'r IET)
- dewis y ddyfais ddiogelu â nerth priodol ar gyfer y cylched goleuadau.

Gallwch hefyd ddefnyddio unrhyw nodiadau neu gyhoeddiadau perthnasol i'ch helpu gyda'r dasg.

Mae'r rhwystr (darn 20 mm o gwndid) wedi'i osod ymlaen llaw hanner ffordd rhwng y bocs T cwndid a swits A. Dylai'r set dros y rhwystr roi **cliriad o 20 mm**.




Gall eich asesydd addasu'r mesuriadau, cydrannau a chynllun er mwyn gweddu i'r cyfleusterau lleol.


Gosod yn unol ag arferion y diwydiant, gofynion cyfredol BS 7671 a Chanllaw Safle IET.

Dylech archwilio eich gwaith wrth osod.

Gwneud profion wedi'u dad-egnïo (parhad y dargludydd diogelu, parhad y cylchedau cylch terfynol, ymwrthedd yr ynysydd, polaredd) **a chofnodi canlyniadau eich profion**.

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser wrth gyflawni'r dasg hon.

# Manyleb Tasg 2




**NID YW'R LLUNIAD I RADDFA. Mae'r holl fesuriadau mewn mm.**
**Mae'r penelin ar arwyneb A i'r SSO 1 gang 200 mm o'r canol i ganol y cwndid. Gall y penelin fod unrhyw le ar hyd y cwndid. Nodi'r Dimensiwn 'X' gan yr Asesydd.**

## Canllawiau i'r asesydd – tasg 2

Fel rhan o elfen gynllunio'r asesiad, bydd angen i'r dysgwr gynhyrchu diagram weirio ar gyfer y cylched goleuadau a dewis y deunyddiau/cydrannau perthnasol nad ydynt wedi'u nodi yn y cyfarwyddiadau (h.y. ceblau a dyfeisiau diogelu) i'w cynnwys yn eu rhestr deunyddiau. Caiff hefyd ddefnyddio cyhoeddiadau/nodiadau perthnasol eraill i'w helpu i gwblhau'r dasg.

Mae'r uned defnyddiwr wedi'i gosod ymlaen llaw.

Gellir addasu'r mesuriadau a'r cynllun er mwyn gweddu i'r cyfleusterau lleol. Nodi dimensiwn X. Gellir amnewid cydrannau.

Mae angen i'r dysgwr wneud y canlynol:

- gosod yn unol ag arferion y diwydiant, gofynion cyfredol BS 7671 a Chanllaw Safle IET.
- gwneud profion wedi'u dad-egnïo (parhad y dargludydd diogelu, parhad y cylchedau cylch terfynol, ymwrthedd yr ynysydd, polaredd) a chofnodi canlyniadau eu profion.

Mae angen i ganolfannau wneud yn siŵr bod ardal addas ar gael i ddysgwyr.

Disgwylir i'r dysgwyr weithio'n annibynnol drwy gydol y dasg.

## Tasg 2 Rhestr adnoddau

| **Deunyddiau** | **Nifer** |
|---|---|
| SSO 2 gang | 1 |
| SSO 1 gang | 1 |
| Swits dwyffordd 2 gang | 1 |
| Swits dwyffordd 1 gang | 1 |
| Daliwr estyll/ffitiad golau | 2 |
| Bocs T cwndid PVC 20 mm | 2 |
| Caeadau bocs cwndid PVC | 3 |
| Cwndid PVC 20 mm | tua 6 m yn dibynnu ar faint y bae |
| Bocs terfynell cwndid PVC 20 mm | 1 |
| Addasyddion benyw cwndid 20 mm | 7 |
| Bocs cefn PVC 20 mm 2 gang | 2 |
| Bocs cefn PVC 20 mm 1 gang | 3 |
| CB Math B 6 A | 2 |
| CB Math B 32 A | 1 |
| Cebl perfformiad tân (fel FP200) | tua 1 m yn dibynnu ar faint y bae |
| Llewys ar gyfer cebl perfformiad tân | 2 |
| Larwm mwg (neu ben efylchiadol addas) | 1 |
| - ac unrhyw ddeunyddiau ychwanegol/dewisiadau eraill addas yn lle'r deunyddiau a nodwyd | Amherthnasol |

**Manion eraill:**

- Sgriwiau pren
- Sgriwiau caead bocs M4
- Cyfrwyau 20 mm
- Clipiau cebl ar gyfer cebl perfformiad tân
- Llewys gwyrdd a melyn
- Lampau
- Uned defnyddiwr a chysylltiadau gwag os oes angen
- Cebl craidd sengl PVC 1.5 $mm^2$
- Craidd sengl PVC (gwyrdd a melyn) 1.5 $mm^2$
- Cebl craidd sengl PVC 2.5 $mm^2$
- Cwndid 20 mm ar gyfer y rhwystr.

**Offer a chyfarpar:**

- Dewis o offer llaw trydanwr
- Haclif
- Sbring plygu
- Gwifren dynnu
- Tâp inswleiddio
- Dosbarthwr ceblau/stand drwm
- Cyfarpar i gynnal profion ar gylchedau wedi'u dad-egnïo.

## Canllawiau i ddysgwyr – tasg 3

Mae’r dasg hon yn cynnwys gosod 2 gylched gan gynnwys:

- Cylched terfynol rheiddiol 16-amp i SFCU wedi weirio mewn 1.5 mm², PVC/SWA. Defnyddiwch 'banjo' neu nyten i ddaearu gyda chynffon CPC ar y ddau ben. Mae'r cyflenwad i'r llwyth ffug (blwch gyda phlât gwag) wedi weirio gan fflecs 3 craidd, 1.5 mm². Cysylltiad terfynol yw liferi cysylltwyr neu flociau cysylltydd y tu mewn i'r blwch.

- Cylched rheidiol wedi’i weirio gyda cheblau craidd sengl PVC mewn cwndid dur i SSO.

- Cylched terfynol rheidiol wedi’i weirio gyda cheblau craidd sengl PVC mewn tryncin a chwndid i SSO. Tryncin yw 50 mm x 50 mm dur galfanedig.

**Fel rhan o’r elfen gynllunio, bydd angen i chi wneud y canlynol:**

- dangos, drwy wneud lluniad o **UN** o’r canlynol:
    - sut mae’r cebl SWA yn cael ei derfynu, neu
    - sut mae’r cysylltwr T tryncin yn cael ei saernïo
      (cewch ddewis pa luniad i’w wneud).

    - mae hefyd angen i chi ddewis cebl maint priodol (dargludydd lleiaf CSA mm²) a chyfraddiad dyfais ddiogelu ar gyfer y ddau gylched SSO gan ddefnyddio gwybodaeth am drefniant cylched safonol (o Ganllaw Safle’r IET).

Gallwch hefyd ddefnyddio unrhyw nodiadau neu gyhoeddiadau perthnasol i’ch helpu gyda’r dasg.

O’r deunyddiau a ddarperir, dewis a gosod ceblau maint addas, a dyfeisiau diogelu gor-gerrynt nerth priodol (A).

Mae’r bocs sy’n cael ei weirio o’r SFCU i fod i efelychu llwyth 1.265 kW. Gosod ffiws sydd â’r cyfraddiad isaf sy’n briodol ar gyfer y llwyth hwn yn yr SFCU. Mae’r uned defnyddiwr wedi’i gosod ymlaen llaw.

Cynhyrchu cysylltwr T tryncin o 2 ddarn o dryncin a bollt/rhybed yn ddiogel.

Gall eich asesydd addasu’r mesuriadau, cydrannau a chynllun er mwyn gweddu i’r cyfleusterau lleol.


Gosod yn unol ag arferion y diwydiant, gofynion cyfredol BS 7671 a Chanllaw Safle IET.

Dylech archwilio eich gwaith wrth osod.

Gwneud profion wedi’u dad-egnïo (parhad y dargludydd diogelu, ymwrthedd yr ynysydd, polaredd) **a chofnodi canlyniadau eich profion**.

Rhaid i chi weithio’n ddiogel bob amser wrth gyflawni’r dasg hon.


# Manyleb Tasg 3





**NID YW'R LLUNIAD I RADDFA. Mae'r holl fesuriadau mewn mm.**
**Mae'r penelin i'r SSO yn 230 mm o'r canol i ganol y cwndid. Gall y penelin fod unrhyw le ar hyd y cwndid. Nodi Dimensiwn 'X' gan yr Aseswr**


Canllaw i’r asesydd ar saernïo’r cysylltwr T tryncin. Bydd angen offer llaw priodol ar gyfer dulliau eraill.

**Cam 1. Marcio allan safle’r cysylltwr T a’r adran torri i ffwrdd**




**Cam 2. Torri’r adran i ffwrdd. Plygu llabedau i lawr (gan ddefnyddio feis)**



**Cam 3. Gosod y darnau yn sownd gyda’i gilydd gan ddefnyddio bolltau neu rybedi**

**Nodiadau: Gwnewch yn siŵr bod ymylon torri yn cael eu ffeilio’n llyfn ar ôl eu torri.  Defnyddiwch blociau pren i gynnal tryncin yn y feis wrth dorri yng ngham 1.**

## Canllawiau i'r asesydd – tasg 3

Fel rhan o elfen gynllunio'r asesiad, bydd angen i'r dysgwr ddewis y deunyddiau/cydrannau perthnasol nad ydynt wedi'u nodi yn y cyfarwyddiadau (h.y. ceblau a dyfeisiau diogelu) i'w cynnwys yn eu rhestr deunyddiau. Hefyd bydd angen i'r dysgwr gynhyrchu lluniad i ddangos sut mae naill ai'r cebl MI neu'r cebl SWA yn cael ei derfynu, neu sut mae'r cysylltwr T tryncin yn cael ei saernïo. Gall y dysgwr benderfynu pa luniad i'w wneud. Caiff hefyd ddefnyddio cyhoeddiadau/nodiadau perthnasol eraill i'w helpu i gwblhau'r dasg.

Mae'r uned defnyddiwr gyda tryncin fflansio ar y top, wedi'i gosod ymlaen llaw. Mae'n rhaid i'r dysgwr cynhyrchu tryncin Ti, allan o 2 ddarn o dryncin. Nodi dimensiwn X.

Gellir addasu'r mesuriadau a'r cynllun er mwyn gweddu i'r cyfleusterau lleol. Gellir amnewid cydrannau.

Mae angen i'r dysgwr wneud y canlynol:

- gosod yn unol ag arferion y diwydiant, gofynion cyfredol BS 7671 a Chanllaw Safle IET.
- gwneud profion wedi'u dad-egnïo (parhad y dargludydd diogelu, ymwrthedd yr ynysydd, polaredd) a chofnodi canlyniadau eu profion.

Mae angen i ganolfannau wneud yn siŵr bod ardal addas ar gael i ddysgwyr. Disgwylir i'r dysgwyr weithio'n annibynnol drwy gydol y dasg.

## Tasg 3 Rhestr adnoddau

| **Materials** | **Quantity** |
|---|---|
| SSO 1 Gang | 2 |
| SFCU | 1 |
| Cwndid dur 20 mm | Tua. 1.3 m |
| Tryncin dur 50 x 50 | 1 m |
| Cyplwyr cwndid dur | 4 |
| Bwsh gwryw pres | 4 |
| Bocs cefn dur 1 Gang 20 mm | 4 |
| 16 A math B CB | 1 |
| 20 A math B CB | 2 |
| Ffiws ar gyfer SFCU (a detholiad o cyfraddiad anghywir) | 1 |
| Cebl SWA 1.5 $mm^2$ | 1 m |
| Chwarennau SWA | 2 |
| Fflecs 3 craidd PVC/PVC | 0.5 m |
| Chwarennau cywasgedd | 2 |
| - ac unrhyw ddefnyddiau ychwanegol/ amgen arall i'r defnyddiau penodedig | N/A |

**Manion eraill:**

- Sgriwiau
- Rhybedi pop
- Cyfrwyau 20 mm
- Cledd SWA
- Clipiau cebl i fflecs
- Uned defnyddiwr (a chysylltiadau gwag os oes angen)
- Addasur tryncin flanged
- Cebl craidd sengl PVC 2.5 $mm^2$
- Cebl craidd sengl PVC (gwyrdd a melyn) 1.5 $mm^2$

**Offer a chyfarpar:**

- Dewis o offer llaw briodol trydanwr
- Haclif
- Plygwr cwndid 20 mm
- Gwifren dynnu
- Iawndyllwr
- Ffeil
- Dril
- Tâp inswleiddio
- Dosbarthwr ceblau/stand drwm
- Bloc pren
- Feis
- Rhybed pop
- Cyfarpar i gynnal profion dad-egnïo.

# Gridiau marcio

Gan ddefnyddio'r disgrifiadau marcio isod ar gyfer pob elfen asesu, nodwch y marciau a roddir ar gyfer pob elfen. Os nad yw'r dysgwr yn cyflawni'r disgrifyddion a restrir yn erbyn elfen unigol (a, b, c ac ati), rhaid rhoi sgôr o 0 ar gyfer yr elfen honno. Yna, rhaid rhoi cyfanswm y marciau ar gyfer pob adran (gan gynnwys defnyddio unrhyw ffactorau graddio, a ddangosir yn y tablau isod) i greu marc cyffredinol ar gyfer y prosiect.

## Grid marcio'r elfen gynllunio

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Dyddiad asesu:** | |
| **a) Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg** | **Marc a enillwyd** |
| • yn llunio **rhestr adnoddau gydlynol** sy'n nodi'r deunyddiau a'r offer sylfaenol allweddol sydd eu hangen i gwblhau'r prif agweddau ar y prosiect. | **1** |
| *neu* | |
| • yn llunio **rhestr drylwyr o adnoddau meintioledig** gan gynnwys y deunyddiau a'r offer perthnasol sydd eu hangen i gwblhau'r dasg (gellir hepgor rhai eitemau o'r rhestr). | **2** |
| *neu* | |
| • yn llunio **rhestr lawn a chyflawn o adnoddau meintioledig**, gan gynnwys deunyddiau, offer ac unrhyw gyfarpar a manion perthnasol. | **3** |
| **b) Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cyflawni'r dasg** | **Marc a enillwyd** |
| • yn paratoi datganiad dull **cydlynol**, asesiad o risg a lluniad/diagram, gydag **amcan o'r dyddiad cwblhau**. | **1** |
| *neu* | |
| • **yn dehongli'n gywir y diagramau** a ddarperir i baratoi datganiad dull **cydlynol ac ystyrlon**, asesiad o risg a lluniad/diagram, gan **nodi cerrig milltir**. | **2** |
| *neu* | |
| • **yn dehongli diagramau'n gywir i** baratoi datganiad dull **cynhwysfawr**, asesiad o risg a lluniad/diagram gyda **cherrig milltir manwl ac ystyrlon** sy'n berthnasol i'r dasg. | **3** |

| c) Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes gwasanaethau adeiladu | Marc a enillwyd |
|---|---|
| • yn llunio amcangyfrif i'r cwsmer sy'n cynnwys **trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud, faint o amser y bydd yn ei gymryd a'r pris cyffredinol** | 1 |
| neu | |
| • yn llunio amcangyfrif i'r cwsmer sy'n cynnwys **trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud, faint o amser y bydd yn ei gymryd a'r pris cyffredinol** sy'n dangos **sut defnyddiwyd cyfanswm y gost a maint yr elw i bennu hyn** | 2 |
| neu | |
| • yn llunio amcangyfrif i'r cwsmer sy'n cynnwys **trosolwg clir o'r gwaith sydd i'w wneud, faint o amser y bydd yn ei gymryd a'r pris cyffredinol** sy'n **dangos dadansoddiad manwl o'r holl gostau a ddefnyddiwyd i bennu hyn** | 3 |
| **d) Sut i amcangyfrif yr amser sydd ei angen** | **Marc a enillwyd** |
| • yn llunio datganiad dull, gan gynnwys amserlen waith, sy'n nodi'r **prif weithgareddau sylfaenol ac amserlen gyffredinol tasgau'r** prosiect | 1 |
| *neu* | |
| • yn llunio datganiad dull, gan gynnwys amserlen waith, sy'n nodi'r **prif dasgau a gweithgareddau** ac yn **amcangyfrif y gofynion amser** ar gyfer y rhain | 2 |
| *neu* | |
| • yn llunio datganiad dull, gan gynnwys amserlen waith, sy'n cynnwys **amcangyfrifon realistig** o'r gofynion amser ar gyfer gweithgareddau allweddol o fewn tasgau ac ar gyfer y prosiect yn gyffredinol, ac yn nodi **dibyniaethau** perthnasol rhwng gweithgareddau a thasgau | 3 |
| **e) Nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg** | **Marc a enillwyd** |
| • yn gosod meini prawf llwyddiant **cydlynol** yn eu cynllun<br>• yn nodi meini prawf llwyddiant allweddol ar gyfer tasg y prosiect | 1 |
| *neu* | |
| • yn gosod meini prawf llwyddiant **cydlynol ac ystyrlon** yn eu cynllun<br>• yn disgrifio eu perthnasedd i brif agweddau'r dasg | 2 |
| *neu* | |
| • yn gosod meini prawf llwyddiant **cynhwysfawr** yn eu cynllun<br>• yn cyfiawnhau pam mae'r meini prawf llwyddiant hynny wedi cael eu dewis ac yn eu cysylltu â'r dasg | 3 |
| Marc a enillwyd | /15 |
| **Cyfanswm = marc a enillwyd x 6** | **/90** |

**Dim ond y marc ar gyfer y cynllun â'r sgôr uchaf fydd yn cyfrannu at farc cyffredinol y prosiect.**

Bydd marciau yn adran gynllunio'r Prosiect Ymarferol, yn cael eu lluosi â 6 i greu cyfanswm y marciau ar gyfer yr adran hon o'r prosiect.

## Grid marcio perfformiad

| **Tasg 1**<br>**Adran A: Lleoli a Gosod** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Gosod bocsys cefn soced yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc)<br>Gosod bocsys cefn switsh golau yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc)<br>Gosod bocsys cefn pwynt data yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc) | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod unedau goleuadau'n gywir (± 5 mm) ac yn ddiogel. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Gosod ceblau'n lefel/plwm (llorweddol/fertigol). (1 marc)<br>Gosod clipiau cebl digonol, yn daclus. (1 marc)<br>Gosod tryncin bach meitrog yn lefel/plwm (llorweddol/fertigol). (1 marc) | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tryncin bach meitrog ar droad 90°. Goddefiant bwlch | ☐ 2mm | ☐ 1mm | ☐ Dim Bwlch |
| **Adran B: Pwyntiau Data** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Terfynu cebl data i bwyntiau data gyda chreiddiau (dargludyddion) wedi'u tyllu'n llawn mewn terfynellau IDC. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Terfynu'r ceblau data'n daclus gyda pharau wedi'u dirdro briodol er mwyn osgoi NEXT a'u rhoi'n sownd i'r modiwl gan ddefnyddio tei ceblau. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran C: Cylched Soced Cylch Terfynol** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Weirio socedi fel cylched cylch terfynol. (1 marc)<br>Weirio soced 'A' fel cainc. (1 marc)<br>Weirio cylched gan ddefnyddio'r cebl CSA cywir yn unol â threfniant cylched safonol yn y Canllaw Ar-Safle. (1 marc) | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gosod gorchudd ceblau ym mhob blwch cefn soced. (1 marc)<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc)<br>Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adran D: Cylched Goleuadau Dwy Ffordd a Chanolradd** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Weirio'r cylched goleuadau gan ddefnyddio'r dull weirio dolen i mewn. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Weirio'r switshys 2 ffordd a chanolradd fel bod y gylched yn gweithio yn ôl y bwriad. (1 marc).<br>Weirio cylched gan ddefnyddio'r cebl CSA cywir yn unol â threfniant cylched safonol yn y Canllaw Ar-Safle. (1 marc)<br>Cysylltu dargludydd cyffredin mewn switsh canolradd gyda chysylltydd addas. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod gorchudd ceblau ym mhob blwch cefn switsh. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc).<br>Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Terfynu CPC ym mhob switsh. (1 marc).<br>Gosod gorchudd unigol i CPC mewn uned goleuadau. (1 marc)<br>Adnabod yr holl ddargludyddion byw. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adran E: Uned Defnyddwyr** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Gosod gorchudd ceblau mewn uned defnyddiwr gyda diogelwch mecanyddol addas. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc)<br>Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel ac yn y drefn gywir ar fariau niwtral a daear. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio dyfais ddiogelu wedi'i graddio'n briodol ar gyfer pob cylched. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran F: Prif Ddargludydd Bondio Amddiffynnol** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gosod gorchudd dargludydd mewn uned defnyddiwr gyda diogelwch mecanyddol addas. (1 marc).<br>Terfynu dargludydd bondio mewn clamp daearu fel ei fod yn ddiogel yn drydanol ac yn fecanyddol. (1 marc).<br>Gwneud clamp daearu yn ddiogel yn fecanyddol gyda hysbysiad rhybuddio yn weladwy. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adran G: Profi** | | | |
| RHAID cael isafswm sgôr o 6 marc yn yr adran hon. (Mae myfyriwr sy'n cael 5 marc neu lai yn cael ei atgyfeirio) | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Dangos y weithdrefn ynysu diogel. (1 marc).<br>Gosod dyfais gloi addas ar yr uned defnyddiwr. (1 marc).<br>Cyn profi, gwneud yn siŵr bod y prif switsh wedi'i gloi yn y safle diffodd a bod pob torrwr cylched wedi'i ddiffodd. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dangos y weithdrefn ar gyfer dirymu ceblau'r prawf ar yr offeryn prawf a ddewiswyd. (1 marc).<br>Profi parhad dargludydd diogelu yn y cylched goleuadau. (1 marc).<br>Profi parhad y prif ddargludydd bondio amddiffynnol. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Profi parhad dargludyddion cylch terfynol. (Gweler y Canllaw Ar-Safle). (1 marc am bob cam a gwblhawyd). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Profi gwrthiant inswleiddio'r cylched goleuadau. (1 marc).<br>Profi gwrthiant inswleiddio'r cylched switsio 2 ffordd a chanolradd drwy weithredu switsh addas. (1 marc).<br>Profi gwrthiant inswleiddio'r cylched cylch terfynol. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadarnhau polaredd y cylched goleuadau. (1 marc).<br>Cadarnhau polaredd y cylched cylch terfynol. (1 marc).<br>Cadarnhau cysylltiadau'r ceblau data gan ddefnyddio profwr ceblau LAN addas. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cofnodi set gyflawn o ganlyniadau ac mae'r darlleniadau'n dderbyniol. (1 marc). | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |

<table>
<tr><td colspan="5">Adran H: Iechyd a diogelwch<br><br>Y prif bwyntiau<br>• Rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol yn unol ag asesiad risg y ganolfan (e.e. sbectol ddiogelwch ac esgidiau diogelwch)<br>• Ardal waith daclus<br><br>Os ceir mân ddiffyg, tynnwch y marciau fel y'u rhestrir.<br><br>Dim mân ddiffygion (3 marc), 1-2 mân ddiffyg (2 farc), 3 mân ddiffyg (1 marc), 4 + mân ddiffyg a’r asesiad yn cael ei stopio, a’r dysgwr yn cael ei atgyfeirio.<br><br>Rhaid stopio’r asesiad ar unwaith os oes achos difrifol o dorri iechyd a diogelwch, a fyddai hefyd yn cael ei ystyried yn fethiant.</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td colspan="3">Marciau</td></tr>
<tr><td>Mae’r dysgwr wedi</td><td></td><td>1</td><td>2</td><td>3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cadw’r ardal waith yn lân ac yn daclus</td><td>☐<br>3</td><td>☐<br>1-2</td><td>☐<br>Dim</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen</td><td>☐<br>3</td><td>☐<br>1-2</td><td>☐<br>Dim</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dylid rhoi rhybuddion pan mae dysgwyr yn gweithio mewn ffordd anniogel ac yn rhoi eu hunain a/neu bobl eraill mewn perygl. Yr asesydd i gofnodi’r diffygion:</td></tr>
</table>

| Adran I: Defnyddio deunyddiau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Marciau | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Heb wneud cais am ddeunyddiau ychwanegol oherwydd gwastraff | | ☐ 2 gais | ☐ 1 cais | ☐ Dim cais ychwanegol |
| | | | | |
| Isgyfanswm | | /24 | /36 | /54 |
| Cyfanswm cyffredinol | | | | / 60 |

## Grid marcio perfformiad

| **Tasg 2**<br>**Adran A: Lleoli a Gosod** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Gosod bocsys cefn soced yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc)<br>Gosod bocsys cefn switsh golau yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc)<br>Gosod larwm mwg yn gywir (± 5 mm) ac yn ddiogel. (1 marc) | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod blwch cwndid 3 ffordd yn gywir (± 5 mm) ac yn ddiogel. (1 marc).<br>Gosod unedau goleuadau A/B yn gywir (± 5 mm) ac yn ddiogel. (1 marc).<br>Gosod cwndid yn lefel/plwm (llorweddol/fertigol). (1 marc) | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod cwndid A-B ar gyfer unedau goleuo sy'n paralel (± 5 mm) â wal gefn. (1 marc).<br>Gosod cebl i larwm mwg yn blwm (fertigol). (1 marc).<br>Gosod digon o gyfrwyau ar gyfer cwndid PVC, yn daclus (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod digon o glipiau P ar gebl y larwm mwg, yn daclus. (1 marc). | ☐ | Amherthn asol | Amherthn asol |
| **Adran B: Cwndid PVC** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Gosod pob cwndid yn ddiogel mewn ategolion. (1 marc). | ☐ | Amherthn asol | Amherthn asol |
| Cynhyrchu troadau 90° heb rychau mewn cwndid ar gyfer cylched goleuadau. (1 marc am bob tro). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynhyrchu set ddwbl heb rychau ar 200mm mewn cwndid ar gyfer SSO. (2 farc). (Rhowch 1 marc os yw cyplydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau cywirdeb).<br>Cynhyrchu set syth heb rychau dros rwystr sydd wedi'i osod ymlaen llaw. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Sicrhau cliriad 20mm dros rwystr sydd wedi'i osod ymlaen llaw gyda hyblygrwydd o: | ☐<br>20mm | ☐<br>10mm | ☐<br>5mm |
| **Adran C: Cylched Soced Cylch Terfynol** | | | |

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Weirio socedi fel cylched cylch terfynol. (1 marc)<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc)<br>Weirio cylched mewn ceblau craidd sengl CSA cywir. (1 marc) | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran D: Cylched Goleuadau Dwy Ffordd** | | | | |
| | | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Weirio'r switshys 2 ffordd ac 1 ffordd fel bod y gylched yn rheoli unedau goleuadau A/B yn ôl y bwriad. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc).<br>Weirio cylched mewn ceblau craidd sengl CSA cywir. (1 marc). | | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran E: Cylched Larwm Mwg** | | | | |
| | | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Gosod y cebl yn gywir, gyda'r ddwy chwarren wedi'u cydosod yn iawn gydag elfen gywasgu'n bresennol a phob un wedi'u tynhau'n briodol. (1 marc).<br>Gosod gorchudd ceblau heibio chwarennau ac i mewn i amgaeadau, gyda digon o slac ar greiddiau, dim difrod i'r dargludydd neu'r inswleiddiad a gorchudd ar y CPC. (1 marc).<br>Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adran F: Uned Defnyddwyr** | | | | |
| | | **Marciau** | | |

| Mae'r dysgwr wedi | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|
| Marcio camau cylched cylch terfynol i gynorthwyo profion. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc)<br>Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel ac yn y drefn gywir ar fariau niwtral a daear. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio dyfais ddiogelu wedi'i graddio'n briodol ar gyfer pob cylched. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran G: Profi** | | | |
| RHAID cael isafswm sgôr o 6 marc yn yr adran hon. (Mae myfyriwr sy'n cael 5 marc neu lai yn cael ei atgyfeirio) | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Dangos y weithdrefn ynysu diogel. (1 marc).<br>Gosod dyfais gloi addas ar yr uned defnyddiwr. (1 marc).<br>Cyn profi, gwneud yn siŵr bod y prif switsh wedi'i gloi yn y safle diffodd a bod pob torrwr cylched wedi'i ddiffodd. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dangos y weithdrefn ar gyfer dirymu ceblau'r prawf ar yr offeryn prawf a ddewiswyd. (1 marc).<br>Profi parhad dargludydd diogelu yn y cylched goleuadau. (1 marc).<br>Profi parhad dargludydd diogelu yn y cylched larwm mwg. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Profi parhad dargludyddion cylch terfynol. (Gweler y Canllaw Ar-Safle). (1 marc am bob cam a gwblhawyd). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Profi gwrthiant inswleiddio'r cylched goleuadau. (1 marc).<br>Profi gwrthiant inswleiddio'r cylched larwm mwg a dangos ymwybyddiaeth y gallai cyfarpar electronig sensitif gael ei ddifrodi gan brofion gwrthiant inswleiddio ar 500V (1 marc).<br>Profi gwrthiant inswleiddio'r cylched cylch terfynol. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadarnhau polaredd y cylched goleuadau. (1 marc).<br>Cadarnhau polaredd y cylched larwm mwg. (1 marc).<br>Cadarnhau polaredd y cylched cylch terfynol. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cofnodi set gyflawn o ganlyniadau ac mae'r darlleniadau'n dderbyniol. (1 marc). | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |

**Adran H: Iechyd a diogelwch**

**Y prif bwyntiau**

- Rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol yn unol ag asesiad risg y ganolfan (e.e. sbectol ddiogelwch ac esgidiau diogelwch)
- Ardal waith daclus

Os ceir mân ddiffyg, tynnwch y marciau fel y'u rhestrir.

Dim mân ddiffygion (3 marc), 1-2 mân ddiffyg (2 farc), 3 mân ddiffyg (1 marc), 4 + mân ddiffyg a’r asesiad yn cael ei stopio, a’r dysgwr yn cael ei atgyfeirio.

**Rhaid stopio’r asesiad ar unwaith os oes achos difrifol o dorri iechyd a diogelwch, a fyddai hefyd yn cael ei ystyried yn fethiant.**

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae’r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Cadw’r ardal waith yn lân ac yn daclus | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |
| Gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |

Dylid rhoi rhybuddion pan mae dysgwyr yn gweithio mewn ffordd anniogel ac yn rhoi eu hunain a/neu bobl eraill mewn perygl. Yr asesydd i gofnodi’r diffygion:

**Adran I: Defnyddio deunyddiau**

| | | Marciau |
|---|---|---|

| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
|---|---|---|---|---|
| Heb wneud cais am ddeunyddiau ychwanegol oherwydd gwastraff | | ☐ 2 gais | ☐ 1 cais | ☐ Dim cais ychwanegol |
| | | | | |
| Isgyfanswm | | /24 | /36 | /54 |
| Cyfanswm cyffredinol | | | | / 60 |

## Grid marcio perfformiad

| **Tasg 3**<br>**Adran A: Lleoli a Gosod** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Gosod SFCU a llwyth efelychu (blwch gyda phlât gwag) yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc).<br>Gosod SSO ar cwndid fetel yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc).<br>Gosod SSO ar dryncin metel yn gywir (± 5 mm), yn wastad ac yn ddiogel. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod (Radial 1) cebl SWA/ fflecs yn lefel/plwm (llorweddol/fertigol). (1 marc).<br>Gosod (Radial 2) cwndid fetel yn blwm (fertigol). (1 marc).<br>Gosod (Radial 3) tryncin metel yn lefel/plwm (llorweddol/fertigol). (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gosod (Radial 1) digon o gletiau/clipiau ceblau, yn daclus. (1 marc).<br>Gosod (Radial 2) digon o gyfrwyau ar cwndid fetel, yn daclus. (1 marc).<br>Gosod (Radial 3) digon o sgriwiau pen crwn/pen pan ar dryncin metel, yn ddiogel. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adran B: Tryncin/Cwndid Fetel** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Cynhyrchu cangen (tee) mewn tryncin metel gyda bolltau/rhybedau'n dal y cymal yn ddiogel. (2 farc).<br>Ffeilio holl ochrau'r gangen (tee) sydd wedi'i chynhyrchu er mwyn peidio â difrodi ceblau sydd wedi'u gosod. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynhyrchu set ddwbl mewn cwndid fetel ar 230mm gyda hyblygrwydd o. | ☐<br>20mm | ☐<br>10mm | ☐<br>5mm |
| Cwndid fetel gyda'i hymylon wedi'u llyfnhau ar bob pen. (1 marc).<br>Gosod cwndid fetel yn ddiogel ar SSO. (1 marc).<br>Gosod cwndid fetel yn ddiogel ar Uned Defnyddwyr. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Adran C: Radial 1 (SFCU)** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gosod y cebl SWA yn gywir, gyda'r chwarennau wedi'u cydosod yn iawn (gan gynnwys gorchuddion), gyda'r holl edefynnau dur wedi'u diogelu yng nghorff y chwarren ac wedi eu tynhau. (1 marc am bob chwaren).<br>Gosod y cebl PVC fflecs yn gywir, gyda'r chwarennau wedi'u cydosod yn iawn, gyda'r elfen gywasgu'n bresennol ac wedi'i thynhau. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Terfynu cebl PVC fflecs i derfynellau llwyth SFCU. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc).<br>Gosod ffiws maint priodol mewn SFCU i ddiogelu'r cebl PVC sy'n cyflenwi llwyth o 1.265 KW. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran D: Radial 2 (SSO)** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Weirio'r SSO fel cylched rheiddiol. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc).<br>Weirio cylched mewn ceblau craidd sengl CSA cywir. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran E: Radial 3 (Tryncin Metel SSO)** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Weirio'r SSO fel cylched rheiddiol. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc).<br>Weirio cylched mewn ceblau craidd sengl CSA cywir. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel gyda llai na 1mm o gopr yn agored ar y terfyniad. (1 marc). | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran F: Uned Defnyddwyr** | | | |
| | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gosod cysylltiad daear addas i'r chwarren SWA gan ddefnyddio cylch daearu neu nyten gyda chynffon CPC. (1 marc).<br>Gadael digon o slac ar gyfer terfynu ceblau. (1 marc)<br>Gwneud pob terfyniad yn drydanol ac yn fecanyddol ddiogel ac yn y drefn gywir ar fariau niwtral a daear. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Defnyddio dyfais ddiogelu wedi'i graddio'n briodol ar gyfer pob cylched. (1 marc) | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Adran G: Profi** | | | |
| RHAID cael isafswm sgôr o 6 marc yn yr adran hon. (Mae myfyriwr sy'n cael 5 marc neu lai yn cael ei atgyfeirio) | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | **1** | **2** | **3** |
| Dangos y weithdrefn ynysu diogel. (1 marc).<br>Gosod dyfais gloi addas ar yr uned defnyddiwr. (1 marc).<br>Cyn profi, gwneud yn siŵr bod y prif switsh wedi'i gloi yn y safle diffodd a bod pob torrwr cylched wedi'i ddiffodd. (1 marc). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dangos y weithdrefn ar gyfer dirymu ceblau'r prawf ar yr offeryn prawf a ddewiswyd. (1 marc). | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Profi parhad dargludydd diogelu yn y cylchedau rheiddiol. (1 marc am bob cylched). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Profi gwrthiant inswleiddio'r cylchedau rheiddiol. (1 marc am bob cylched). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cadarnhau polaredd y cylchedau rheiddiol. (1 marc am bob cylched). | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cofnodi set gyflawn o ganlyniadau ac mae'r darlleniadau'n dderbyniol. | ☐ | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran H: Iechyd a diogelwch**<br><br>**Y prif bwyntiau**<br>• Rhaid gwisgo cyfarpar diogelu personol yn unol ag asesiad risg y ganolfan (e.e. sbectol ddiogelwch ac esgidiau diogelwch)<br>• Ardal waith daclus<br><br>Os ceir mân ddiffyg, tynnwch y marciau fel y'u rhestrir.<br><br>Dim mân ddiffygion (3 marc), 1-2 mân ddiffyg (2 farc), 3 mân ddiffyg (1 marc), 4 + mân ddiffyg a'r asesiad yn cael ei stopio, a'r dysgwr yn cael ei atgyfeirio.<br><br>**Rhaid stopio'r asesiad ar unwaith os oes achos difrifol o dorri iechyd a diogelwch, a fyddai hefyd yn cael ei ystyried yn fethiant.** | | | | |
| | | **Marciau** | | |
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Cadw'r ardal waith yn lân ac yn daclus | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |
| Gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen | | ☐ 3 | ☐ 1-2 | ☐ Dim |
| Dylid rhoi rhybuddion pan mae dysgwyr yn gweithio mewn ffordd anniogel ac yn rhoi eu hunain a/neu bobl eraill mewn perygl.  Yr asesydd i gofnodi'r diffygion: | | | | |
| **Adran I: Defnyddio deunyddiau** | | | | |

| | | Marciau | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mae'r dysgwr wedi** | | **1** | **2** | **3** |
| Heb wneud cais am ddeunyddiau ychwanegol oherwydd gwastraff | | ☐ 2 gais | ☐ 1 cais | ☐ Dim cais ychwanegol |
| | | | | |
| Isgyfanswm | | /24 | /36 | /54 |
| Cyfanswm cyffredinol | | | | / 60 |

marcio ar gyfer gwerthuso

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Dyddiad asesu:** | |

| **Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg, y cynllun a'r meini prawf llwyddo** | **Marciau a enillwyd** |
|---|---|
| • nid yw'n cynhyrchu gwerthusiad **cydlynol**<br>• nid yw prif ddeilliannau'r prosiect yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad gwerthuso | **0** |
| **neu** | |
| • wedi cynhyrchu gwerthusiad **cydlynol**<br>• myfyrio ar berfformiad personol mewn adroddiad yn gwerthuso **prif ganlyniadau** tasgau'r prosiect | **1** |
| **neu** | |
| • wedi cynhyrchu gwerthusiad **cydlynol ac ystyrlon**<br>• wedi disgrifio ei **berfformiad** yn yr adroddiad gwerthuso **yn erbyn ei gynllun, ei feini prawf llwyddiant ei hun a gofynion y dasg** sy'n ymwneud â'r **prif weithgareddau a chanlyniadau pob tasg** | **2** |
| **neu** | |
| • wedi cynhyrchu gwerthusiad **cynhwysfawr helaeth**<br>• mewn adroddiad gwerthuso sydd wedi'i ysgrifennu'n dda, wedi **gwerthuso ei berfformiad yn erbyn ei gynllun, ei feini prawf llwyddiant a gofynion y dasg** gan ddangos **ei gryfderau/gwendidau a'r gwersi a ddysgwyd** | **3** |
| **Marc a enillwyd** | |
| **Cyfanswm = marc a enillwyd x 14** | **/42** |

Bydd marciau yn adran gwerthuso'r Prosiect Ymarferol yn cael eu lluosi â 14 i greu cyfanswm y marciau ar gyfer yr adran hon o'r prosiect.

# Marc cyffredinol y Prosiect Ymarferol

Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm y marciau sydd ar gael ym mhob adran o'r prosiect ymarferol a'r marc isaf y mae'n rhaid ei gael ym mhob adran.

| Adran y Prosiect | Marciau Ar Gael | Marciau a Ddyfarnwyd | Trothwy'r Marc Llwyddo |
|---|---|---|---|
| Cynllunio (cynllun sy'n sgorio uchaf) | 90 | | 30 |
| Tasg Crefft 1 | 60 | | 24 |
| Tasg Crefft 2 | 60 | | 24 |
| Tasg Crefft 3 | 60 | | 24 |
| Gwerthuso | 42 | | 14 |
| Cyfanswm | 312 | | 116 |

Enw'r asesydd: ______________________ Enw'r dysgwr: ______________________

Llofnod yr asesydd: ______________________ Dyddiad: ______________________

Rhaid cael cyfanswm y marciau a roddir ym mhob adran gael a'u cyfuno i greu marc cyffredinol ar gyfer y prosiect. Mae'r tabl isod yn dangos y radd i'w dyfarnu ar sail marc cyffredinol y dysgwr.

**Sylwer**: mae'r marc llwyddo trothwy yn dangos y sgôr isaf y mae'n rhaid i ddysgwyr ei chyrraedd ym mhob rhan o'r prosiect, ond nid yw'n gosod y sgôr isaf y mae'n rhaid ei chyrraedd yn gyffredinol – mae cyfanswm y marc sy'n ofynnol i lwyddo yn yr asesiad hwn i'w weld yn y tabl isod.

## Pennu gradd gyffredinol

Mae'r tabl isod yn dangos faint o farciau sydd eu hangen yn gyffredinol i gyflawni pob gradd yn yr elfen asesu hon:

| Cyfanswm Marciau | Gradd | Pwyntiau |
|---|---|---|
| 0 - 115 | Methu | 0 |
| 116 - 143 | P1 | 1 |
| 144 - 171 | P2 | 2 |
| 172 - 199 | M1 | 3 |
| 200 - 227 | M2 | 4 |
| 228 - 255 | D1 | 5 |
| 256 - 283 | D2 | 6 |
| 284 - 312 | D3 | 7 |

Rhaid i'r asesydd ddefnyddio'r tabl hwn i gyfrifo gradd dros dro ar gyfer y dysgwr. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol, ac yna gweithgarwch sicrhau ansawdd allanol a fydd yn cael ei gwblhau gan EAL. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i EAL a bydd gradd derfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan EAL.

## Gradd dros dro y Prosiect Ymarferol

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr** | |
| **Dyddiad** | |
| **Cyfanswm y Marciau a Enillwyd** | |
| **Gradd dros dro y Prosiect Ymarferol** | |
| **Enw'r asesydd** | |
| **Llofnod yr asesydd** | |